



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol mwy **disglair** i Gymru

Y rhesymau dros **aros** yn yr UE

Cynnwys

1	Rhagair y Prif Weinidog	1
2	Crynodeb Gweithredol	2
3	Cyflwyniad	5
4	Yr Economi: y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol	7
5	Mudo	11
6	Cyllid a Buddsoddi	17
7	Mesurau Diogelu a Gwerthoedd Cymdeithasol ac Amgylcheddol	21
8	Materion Cyfansoddiadol a Datganoli	24
9	Pontio	27
10	Casgliad	29
11	Atodiad A - Trosolwg o bapurau polisi Brexit	30
12	Atodiad B – Ymadael â'r UE: Asesiad Economaidd wedi'i ddiweddarau o'r effaith ar Gymru	31

1 Rhagair gan y Prif Weinidog



Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru

Dair blynedd ar ôl refferendwm 2016, mae arolwg Llywodraeth y DU o farn y cyhoedd yn dangos bod nifer helaeth o bobl yn credu bod Brexit heb gytundeb yn golygu ‘dim gwahaniaeth’, ac y bydd popeth yn aros fel ag y mae, os a phan byddwn yn ymadael â'r UE.

Ond does dim yn bellach o'r gwirionedd, fel y bydd y papur hwn yn dangos. Bydd ymadael heb gytundeb yn amharu'n sylweddol ar bethau yn y tymor byr, ac yn y tymor hwy mae perygl y bydd yn difetha economi Cymru mewn ffordd na welwyd ers dinistr rhyfygus ein sector diwydiannol cyfan gan Lywodraeth Thatcher yn yr 1980au. Ac, fel y niwed i'n heconomi bryd hynny, bydd ymadael heb gytundeb yn weithred o hunan-niweidio o ganlyniad i ddewis gwleidyddol. Bydd yn cynyddu lefelau tlodi, yn gostwng ansawdd bywyd pob un ohonom, ac yn niweidio gwasanaethau cyhoeddus hyd yn oed ymhellach. Fodd bynnag, ni fydd yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd presennol, sy'n her enfawr.

Yn ogystal â hynny, un o gamsyniadau mwyaf Brexit heb gytundeb Boris Johnson yw y bydd yn osgoi'r angen i gynnal negodiadau gyda'r UE, ac yn y tymor hwy, yr angen am gytundeb.

Drannoeth y ffair, wedi i ni gael ein rhwygo'n ddisymwth o'r UE gan Brexit anhrefnus, bydd yr angen i gynnal perthynas strategol, gadarnhaol gyda'n

marchnad fwyaf ac agosaf, yn parhau. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn uchel ei chloch ynghylch datblygu cytundeb masnach rydd dwfn ac eang. Ond cyn y gall hi, neu unrhyw un o'r eithafwyr Brexit y mae wedi'u casglu ynghyd, gamu drwy'r drws ym Mrwsel, bydd yr UE yn gofyn am setlo'r tri mater sydd heb eu datrys yn y Cytundeb Ymadael y maent yn eu gwrthod – sef hawliau dinasyddion, talu ein biliau, a'r ffin rhwng Gogledd a Gweriniaeth Iwerddon. Bydd ymadael ar 31 Hydref heb gytundeb yn arwain at ddrwgdeimlad a chwerwedd a fydd yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd dod i gytundeb.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dal i gredu y bydd bygwth economi'r DU yn gwneud i'r UE ildio. Gwastraffwyd y ddwy flynedd gyntaf ar ôl y refferendwm drwy ymddwyn yn y ffordd drahaus hon.

Wrth wynebu'r bygythiad arswydus o Brexit heb gytundeb, mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn glir y dylai'r penderfyniad fynd yn ôl at y bobl, a bod aros yn yr UE er budd holl bobl Cymru a'r DU. Mae'r papur hwn yn amlinellu pam, a hefyd yn egluro sut y gallwn, o fewn yr UE, barhau i fynd ar drywydd y newidiadau a'r diwygiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau ffyniant a sefydlogrwydd hirdymor Cymru.

2 Crynodeb Gweithredol

Yn refferendwm 2016, pleidleisiodd Cymru a'r DU o drwch blewyn o blaid ymadael â'r UE. Yng ngoleuni'r bleidlais honno, er bod Llywodraeth Cymru wedi annog yn gryf y dylid aros yn yr UE, derbyniom y canlyniad gan ganolbwyntio ar ffurf Brexit, nid ar Brexit fel ffaith.

Aethom ati i ystyried ffordd ymlaen a fyddai'n parhau'r canlyniad, a sicrhau nad oedd pobl ac economi Cymru yn wynebu unrhyw niwed sylweddol yn sgil y tryblith anochel wrth ymadael â'r gymuned economaidd, gwleidyddol a chyfreithiol fwyaf integredig yn y byd.

O ganlyniad, cyhoeddwyd y Papur Gwyn, **Diogelu Dyfodol Cymru** gennym, ar y cyd â Phlaid Cymru, ym mis Ionawr 2017.

Yn ei hanfod, roeddem yn annog Brexit fyddai'n cynnal y cysylltiadau economaidd agosaf rhwng y DU a'r UE a fyddai'n bosibl heb fod yn aelod-wladwriaeth.

Am fwy na dwy flynedd, aethom ar drywydd y nod hwnnw yn frwdfrydig gan brofi rhywfaint o lwyddiant.

Ond gyda'r posibilrwydd ac yna'r ffaith o Boris Johnson fel Prif Weinidog, daeth yn glir bod y strategaeth honno wedi cyrraedd diwedd y ffordd. Dan Lywodraeth bresennol y DU, mae'r dewis sy'n wynebu'r DU wedi cyfyngu bellach i Brexit heb gytundeb neu aros yn yr UE.

Yn y papur hwn, rydym yn egluro pam fod Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi mai aros yn yr UE, dan yr amgylchiadau hyn, yw'r opsiwn gorau i Gymru.

Yn arbennig, rydym yn amlinellu'r dystiolaeth pam y byddai Brexit heb gytundeb yn drychinebus i Gymru, a pham, pe byddem yn aros yn yr UE, y byddai'n dal i fod yn bosibl mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a sbardunodd y bleidlais i adael.

Rydym yn canolbwyntio ar feysydd polisi lle mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol, ond mae'n bwysig cofio hefyd bod ymadael â'r UE heb gytundeb yn arwain at beryglon gwirioneddol o ran ein diogelwch mewnol ac allanol.

Rydym yn ystyried pob un o'r chwe blaenoriaeth a nodwyd yn **Diogelu Dyfodol Cymru**.

O ran yr **economi**, mae tystiolaeth gymhellol y bydd unrhyw Brexit sy'n golygu torri ein cysylltiadau â'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau yn achosi niwed economaidd difrifol ar draws yr holl economi, ond yn arbennig ein sector gweithgynhyrchu a bwyd-amaeth, a fyddai'n debygol o weld ergyd ddifrifol i swyddi a buddsoddiad.

Yn ogystal ag amharu tymor byr, mae amcangyfrifon y Llywodraeth ei hun yn awgrymu, mewn Brexit heb gytundeb, y byddai'r economi tua 9% yn llai mewn 15 mlynedd na'r hyn y byddai wedi bod fel arall, ac y bydd safonau byw yn dioddef wrth i brisiau cartref a chost teithio dramor godi o ganlyniad i ddibrisio a thariffau. Mae hyn ar ben y niwed sydd eisoes wedi'i wneud, gyda Banc Lloegr yn amcangyfrif bod pob person yng Nghymru eisoes wedi colli £1,000 o ganlyniad i ansicrwydd Brexit.

Pe byddem yn aros yn yr UE, byddai cysgod ansicrwydd yn codi, ac fe fyddem yn parhau i gymryd rhan yn llawn wrth osod safonau a rheoliadau sy'n llunio ein heconomi. Byddem hefyd yn gweithio gyda llywodraethau a ffigurau gwleidyddol eraill o'r un anian i sicrhau diwygiadau blaengar gan gynnwys gosod targedau llawer mwy uchelgeisiol ar gyfer lleihau a diddymu allyriadau carbon net a chefnogi'r economi gylchol; mesurau diogelu cadarnach ar gyfer hawliau'r farchnad lafur; cyflwyno mesurau effeithiol i drethu corfforaethau amlwladol; diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a hyrwyddo masnach ryngwladol yn seiliedig ar reolau.

O ran **polisi mudo**, mae dull gweithredu Llywodraeth y DU yn bygwth tanselilio mynediad cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat at sgiliau allweddol, gadael gweithwyr ar fisa tymor byr yn agored i ddioddef cam-fanteisio, a thanseilio diogelwch dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sydd eisoes yn preswyllo yma ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n heconomi.

Pe byddem yn aros yn yr UE, byddai'n bosib gweithredu nifer o'r newidiadau yr oeddem yn eu hargymell yn ein dogfen bolisi 'Tegwch o ran symudiad pobl', i roi sylw i bryderon a oedd yn amlwg iawn yn refferendwm 2016. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys dull llawer mwy radical o orfodi mesurau i atal cam-fanteisio ar weithwyr, yn arbennig y rhai isel eu cyflog, a gorfodi rheoliadau'r UE sy'n caniatáu i aelod-wladwriaethau anfon mudwyr o'r UE yn ôl i'w gwledydd os nad ydynt wedi cael gwaith ac os nad oes modd iddynt gynnal eu hunain.

Gan droi at **gyllid a buddsoddi**, mae Llywodraeth y DU wedi methu darparu unrhyw sicrwydd na fydd Cymru'n colli ceiniog mewn Brexit heb gytundeb, fel yr honnodd yr ymgyrch Ymadael. Nid oes gwarant am gyllid llawn yn lle Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd sydd, dros 20 mlynedd, wedi chwarae rhan sylweddol yn gwella sylfaen sgiliau a chyfraddau cyflogaeth Cymru, a chryfhau ein sylfaen ymchwil. Yn yr un modd o ran y Polisi Amaethyddol Cyffredin, nid oes unrhyw warant y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gefnogi amaethyddiaeth i'r un graddau y tu hwnt i 2022, na darparu'r un gyfran o wariant amaethyddiaeth cyffredinol y



DU i Gymru. Byddem yn colli mynediad at gynlluniau ariannu'r UE fel Horizon Ewrop ac Erasmus+, sy'n chwarae rhan allweddol i gefnogi ein system ymchwil ac addysg, a Banc Buddsoddi Ewrop, sy'n parhau i chwarae rhan allweddol yn cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru.

O fewn yr UE, byddai Cymru'n parhau i fod ar ei hennill gyda chyllid yr UE, gan fanteisio ar y lefel uchaf o gymorth dan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi. Byddem yn medru parhau i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd dros 20 mlynedd o ddefnyddio'r cronfeydd yn llwyddiannus, a phwyso am ddiwygio pellach i'r systemau rheoli gor-fiwrocraidd.

Mae'n gynyddol amlwg y bydd Llywodraeth bresennol y DU yn troi cefn ar ymrwymadau a wnaed gan Theresa May i gynnal cydweddiad â **mesurau diogelu a gwerthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol** presennol yr UE, gan ddefnyddio Brexit heb gytundeb fel cyfiawnhad ar gyfer chwalu'r mesurau hyn yn llwyr. Wrth i Lywodraeth y DU symud ymlaen ag agenda radical i ddadroleiddio yn Lloegr, byddai pwysau enfawr ar y gwledydd datganoledig i ddilyn trywydd tebyg. Yn ogystal ag

erydu hawliau yn y gweithle a safonau amgylcheddol, byddem hefyd yn sylwi ar newidiadau llai dramatig ar unwaith, megis mwy o anhawster a chymhlethdod teithio o fewn yr UE, yn arbennig gydag anifeiliaid anwes neu mewn car.

Ar y llaw arall, o fewn yr UE, byddem yn cadw'n mesurau diogelu amgylcheddol a chymdeithasol presennol, ac yn medru dylanwadu'n gryf ar ddulliau llawer mwy uchelgeisiol o roi sylw i'r argyfwng hinsawdd ac ymladd dros ymrwymadau presennol a gwell i bolisiau ac arferion cydraddoldeb ledled Ewrop.

O ran **materion cyfansoddiadol a datganoli**, mae'r profiadau a gafwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi dangos pa mor annigonol yw'n trefniadau cyfansoddiadol i ymdopi â'r pwysau a ddaw i ganlyn Brexit. Ymddengys eu bod hefyd, ar yr un pryd, wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth y DU i ystyried y materion hyn mewn ffordd foddhaol. Maent hefyd wedi dangos gwendid sylfaenol cyfansoddiad y DU ac wedi taflu tanwydd ar fflamau anfonlonrwydd poblogaidd â'n system wleidyddol.

Mae Brexit heb gytundeb yn fygythiad sylfaenol i ddyfodol y DU, gyda phwysau sylweddol i gael refferendwm arall ar annibyniaeth yn yr Alban a phleidlais ar y ffin yng Ngogledd Iwerddon.

Pe byddem yn aros yn yr UE, byddai'r problemau gyda'n system ddatganoli yn llai difrifol, ond ni fyddent yn diflannu. Byddem felly yn parhau i alw am gonfensiwn cyfansoddiadol i roi sylw i'r materion hyn. Mae Brexit hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i sefydliadau datganoledig gymryd mwy o ran wrth drafod polisi masnach. O fewn yr UE, byddai angen inni ddatblygu trefniadau mwy cadarn er mwyn i'r llywodraethau datganoledig fedru cytuno ar safbwynt Llywodraeth y DU

ar drafodaethau masnach a fydd yn cael eu cynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd, a hynny yn unol â'r trefniadau sydd wedi bod yn eu lle erioed ar gyfer amaethyddiaeth, pysgodfeydd a datblygu rhanbarthol.

Yn olaf, o ran **pontio**, ni fyddai unrhyw gyfnod pontio pe bai Brexit heb gytundeb, ac ychydig iawn o obaith fyddai i weld yr UE yn cytuno i fân fargeinion neu agor negodiadau yn y dyfodol heb ddatrys materion hawliau dinasyddion, ein rhwymedigaethau ariannol a ffin Gogledd Iwerddon.

Pe byddem yn aros yn yr UE, ni fyddai cyfnod pontio ffurfiol ond byddai angen i ni fuddsoddi'n sylweddol yn yr

ymgais i ailadeiladu hygyrdd y DU. Gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan sylweddol yn y gwaith hwnnw, gan fod enw da gan Gymru o hyd ymhlith sefydliadau'r UE fel gwlad sy'n parchu rheolau ac sy'n gweithredu gweithdrefnau cyllid yr UE yn effeithlon ac effeithiol.



3 Cyflwyniad

Yn refferendwm 2016, pleidleisiodd Cymru a'r DU o drwch blewyn o blaid ymadael â'r UE. Yng ngoleuni'r bleidlais honno, er bod Llywodraeth Cymru wedi annog yn gryf y dylid aros yn yr UE, derbynion y canlyniad gan ganolbwyntio ar ffurf Brexit, nid ar Brexit fel ffaith.

Aethom ati i ystyried ffordd ymlaen a fyddai'n parchu'r canlyniad, a sicrhau nad oedd pobl ac economi Cymru yn wynebu unrhyw niwed sylweddol yn sgil y tryblith anochel wrth ymadael â'r gymuned economaidd, gwleidyddol a chyfreithiol fwyaf integredig yn y byd.

O ganlyniad, cyhoeddwyd y Papur Gwyn, **Diogelu Dyfodol Cymru** gennym, ar y cyd â Phlaid Cymru, ym mis Ionawr 2017. Roedd yn amlinellu chwe blaenoriaeth, sef:

- pwysigrwydd cael mynediad llawn a dirwystr at y **Farchnad Sengl** i gefnogi busnesau, a sicrhau swyddi a ffyniant Cymru yn y dyfodol
- polisi **mudo** ymarferol ac egwyddorol yn y dyfodol, sy'n gyson â pharhau i fod yn rhan o'r Farchnad Sengl ac yn gysylltiedig â chyflogaeth, gan syrthio'n drwm ar y rheini sy'n camfanteisio ar weithwyr
- mewn perthynas â **chyllid a buddsoddi**, yr angen i Lywodraeth y DU gadw at yr addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm na fyddai Cymru yn colli ceiniog o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

- yr angen am berthynas **gyfansoddiadol** sy'n sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU – yn seiliedig ar barch o'r ddwy ochr, dod i gytundeb drwy gydsyniad, a dulliau newydd ac annibynnol o ddatrys anghydfodau – ar ôl i'r DU ymadael â'r UE
- yr angen i gynnal y **gwerthoedd a'r mesurau diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol** sy'n werthfawr i ni yng Nghymru, yn arbennig hawliau gweithwyr, pan na fydd y rhain yn cael eu gwarantu drwy aelodaeth y DU o'r UE
- pwysigrwydd ystyried **trefniadau pontio** er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn disgyn oddi ar y dibyn o ran ei pherthynas economaidd a'i pherthynas ehangach gyda'r UE, pe na bai'r trefniadau tymor hwy wedi'u cytuno pan fydd y DU yn ymadael.

Yn ei hanfod, galwom am Brexit a fyddai'n cadw'r cysylltiadau economaidd agosaf posib rhwng y DU a'r UE heb fod yn aelod-wladwriaeth. Byddai hyn felly'n adlewyrchu'r hyn oedd ymgyrch Ymadael 2016 yn canolbwyntio arno sef cadw cysylltiadau economaidd agos, er y byddem yn gadael y strwythurau gwleidyddol yr honnir eu bod yn atal ein rhyddid i weithredu ein materion ein hunain.

Wrth gyhoeddi **Diogelu Dyfodol Cymru** a'r gyfres o ddogfennau mwy manwl (Atodiad A) a ddilynodd, llwyddom i osgoi'r twll y cwmpodd Llywodraeth y

DU iddo o dan arweinyddiaeth Theresa May. Ni wnaethom or-amcangyfrif pa mor gryf oedd sefyllfa negodi y DU, na thwylo etholwyr y gallem gael yr holl fuddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r UE heb dalu'r pris (yn llythrennol ac yn drosiadol).

I'r gwrthwyneb, roeddem yn glir am y ffaith, o safbwynt economaidd, na fyddai unrhyw fath o Brexit yn darparu'r un canlyniadau neu ganlyniadau gwell i Gymru nag aros yn y UE, a bod parhau i fod yn rhan o'r Farchnad Sengl yn hanfodol er mwyn lleihau'r niwed posibl i swyddi a bywoliaethau Cymru. Roeddem hefyd yn glir y byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gadw'n agos iawn at reolau a rheoliadau'r farchnad sengl, er y byddem yn colli ein rôl yn y sefydliadau gwleidyddol sy'n eu pennu.

“Mae parhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl yn golygu, wrth gwrs, y byddai'n rhaid i'r DU barhau i sicrhau bod y drefn rheoleiddio nwyddau a gwasanaethau yn y DU yn cyfateb i rai'r UE, a bod trefniadau datrys anghydfodau priodol yn eu lle. Credwn yn gryf fod hyn yn bris werth ei dalu am y manteision economaidd na ellir eu cael heb barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl.”¹

Am fwy na dwy flynedd, aethom ar drywydd y nod hwnnw yn frwdfrydig gan brofi rhywfaint o lwyddiant. Roedd y consensws yn symud yn agosach at ein un ni, a gorfodwyd Llywodraeth y DU i gefnu ar rai o'i 'llynellau coch' cynnar, niweidiol.

Fodd bynnag, mae mwy na thair blynedd hir ers y refferendwm, a mwy na dwy flynedd a hanner ers i ni gyhoeddi **Diogelu Dyfodol Cymru**.

Yn y cyfnod hwnnw, fel Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, gwnaeth Theresa May:

- amlinellu prospectws bras ac afrealistig hollol ar gyfer Brexit yn Lancaster House ac yn hysbysiad Erthygl 50, canolbwyntiodd yn bennaf ar yr hyn yr oedd y DU yn dianc rhagddo, nid beth oedd am ei gyflawni
- yna, yn araf, fe'i gorfodwyd i symud i gyfeiriad Brexit 'meddalach' gan ddal i esgus ei fod yn cyd-fynd â'i 'llynellau coch'
- ar ôl codi disgwyliadau cefnogwyr mwyaf brwd Brexit o fewn ei rhengoedd, sylweddolodd na allai ennill digon o gefnogaeth gan ei haelodau seneddol ei hun i sicrhau'r fargen a wnaeth gyda 27 gwlad yr UE
- ar ôl methu â chreu unrhyw gonsensws ar draws y pleidiau cyn negodi neu gytuno ar y cytundeb ymadael, neu adeiladu pontydd mewn gwlad ranedig, gwnaeth ymgais bitw i ddod i gytundeb gyda'r Gwrthbleidiau, cyn iddi ddod i'r amlwg nad oedd yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn ddigon i ddarbwylllo unrhyw un o'r pleidiau eraill yn Nŷ'r Cyffredin.

Yn y cyfamser, mae'r ansicrwydd sydd ynghlwm ag ymadawiad y DU â'r UE yn cael effaith negyddol sylweddol ar yr economi: yn ôl Banc Lloegr, mae twf is o ganlyniad i'r ansicrwydd hwn eisoes wedi costio dros £1,000 i bob un ohonom ni sy'n byw yng Nghymru ers 2016.

Ond yn hytrach nag uno'r wlad, yr hyn sy'n peri hyd yn oed mwy o ofid yw bod y rhaniadau o fewn ein cymdeithas wedi dyfnhau. Ac ar lefel gynyddol, mae'r rheini a oedd yn credu bod angen i ni ymadael â'r UE wedi colli amynedd ac yn dadlau o blaid cael Brexit heb gytundeb – rhywbeth sy'n bell iawn o'r darlun a bortreadwyd gan ymgyrchwyr dros Ymadael dair blynedd yn ôl, pan gafwyd addewidion mai'r cytundeb masnach rydd fyddai'r 'hawsaf erioed' i'w negodi.

Felly ar ôl gwastraffu tair blynedd, a'r Prif Weinidog newydd yn benderfynol o ymadael â'r UE ar 31 Hydref waeth beth fydd hynny'n ei olygu, yn gynharach eleni edrychom yn fanwl ar ein polisi Brexit. Roeddem yn glir nad oedd dim siawns, neu bron dim siawns, y byddai Llywodraeth dan arweinyddiaeth Boris Johnson yn darbwylllo 27 gwlad yr UE i wneud newidiadau sylweddol i'r Cytundeb Ymadael a negodwyd gyda Theresa May – ac nid ydym wedi gweld unrhyw reswm i newid ein barn hyd yma.

Yn wyneb opsiynau sydd bellach i bob pwrpas yn ddewis rhwng Brexit heb gytundeb ac ail-ofyn cwestiwn y refferendwm yn 2016, daethom i'r casgliad bod y tebygolrwydd o adeiladu consensws o amgylch Brexit sy'n economaidd lythrennog yn fach iawn. Ac fel llywodraeth a oedd am roi buddiannau pobl

Cymru yn gyntaf, y peth cywir i Weinidogion Cymru ei wneud oedd ymgyrchu i aros yn yr UE a galw am refferendwm i gyrraedd y nod hwnnw.

Yn y papur hwn, rydym yn amlinellu'r dystiolaeth a'n harweiniodd at ddod i'r casgliad hwnnw, ac yn egluro'r ddau ddewis sy'n wynebu ein gwlad. Yn arbennig, rydym yn amlinellu'r dystiolaeth pam y byddai Brexit heb gytundeb yn drychinebus i Gymru, a pham, pe byddem yn aros yn yr UE, y byddai'n dal i fod yn bosibl i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a sbardunodd y bleidlais i adael. Wrth wneud hynny, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar y niwed hirdymor a fyddai'n dod o ganlyniad i ymadael heb gytundeb, yn hytrach na phroblemau tebygol y trafferthion tymor byr, yn ymwneud er enghraifft â llwybrau cyflenwi bwyd ffres neu feddyginiaethau, a osodwyd mor gadarn yn rhagdybiaethau cynllunio 'Operation Yellowhammer'.

Rydym yn ailedrych ar bob un o'n chwe blaenoriaeth yn nogfen **Diogelu Dyfodol Cymru** ac yn egluro beth sydd wedi digwydd ers y refferendwm i lywio ein barn; beth y byddai Brexit heb gytundeb yn ei olygu; a sut y byddai aros yn yr UE yn ein helpu i adeiladu dyfodol mwy disglair i Gymru. Mewn geiriau eraill, sut y byddai yn ein galluogi i ddilyn ein nod o adeiladu Cymru sy'n fwy ffyniannus, yn fwy cyfartal ac yn fwy cynaliadwy, yn unol â'n hymrwymiaadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4 Yr Economi: y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol

YR HYN A DDYWEDWYD GENNYM YN DIOGELU DYFODOL CYMRU

Yn nogfen **Diogelu Dyfodol Cymru**, rydym yn nodi'n glir beth fydd goblygiadau economaidd ymadael â'r UE i Gymru, y manteision i economïau Cymru a'r DU o fod yn rhan o'r Farchnad Sengl a'r achos dros barhau i gael mynediad llawn a dirwystr at y 500 miliwn o gwsmeriaid, heb dariffau newydd neu rwystrau eraill nad ydynt yn dariffau. Dangoswyd hefyd sut y mae cael mynediad at y Farchnad Sengl wedi bod yn ffactor allweddol wrth ddenu buddsoddiadau i Gymru o bob rhan o'r byd, a sut y byddai cyflwyno rhwystrau newydd i fasnachu yn debygol o arwain at gollu buddsoddiadau, yn arbennig yn achos busnesau sydd â chadwyni cyflenwi trawsffiniol cymhleth.

Yn nogfen **Diogelu Dyfodol Cymru**, tynnwyd sylw at y gyfran uchel o allforion nwyddau o Gymru sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r UE (ar hyn o bryd mae'r ffigwr yn 60% o gyfanswm gwerth yr holl allforion nwyddau uniongyrchol o Gymru). Dangoswyd sut roedd yr holl ddaroganwyr economaidd credadwy wedi rhagweld y byddai peidio â bod yn rhan o'r Farchnad Sengl, ac yn ei le masnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd yn arwain at economi yn y DU a fyddai hyd at 10% yn llai nag y byddai fel arall.

Gwnaethom hefyd ddadlau'r achos y dylai'r DU aros yn rhan o'r Undeb Tollau er mwyn

ein galluogi i fasnachu heb drafferthion gyda'r UE a mwy na 50 o wledydd y mae gan yr UE gytundebau masnach rydd â nhw.

YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU

Ers i ni gyhoeddi **Diogelu Dyfodol Cymru**, mae tystiolaeth wedi parhau i gronni am effaith negyddol debygol Brexit heb gytundeb ar ragolygon economaidd Cymru a'r DU.

Er bod llawer o'r pryderon am ymadael heb gytundeb wedi canolbwyntio ar y trafferthion tymor byr, mae'r niwed hirdymor tebygol i'r economi gyfan hyd yn oed yn fwy dirifol. Yn arbennig, byddai'n yn cael effaith hynod negyddol ar y sector gweithgynhyrchu sydd, i raddau helaeth, yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi cymhleth ac integredig ar draws yr UE a'r sector bwyd-amaeth.

Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU ei hun o effaith y sefyllfaoedd amrywiol a allai ddeillio o Brexit, yn awgrymu'r canlynol:

- Brexit heb gytundeb oedd y mwyaf niweidiol yn economaidd o'r holl sefyllfaoedd a ystyriwyd, a hynny o bell fordd. Byddai'r math hwn o Brexit yn golygu y byddai Cynnyrch Domestig Gros (GDP) tua 7.7% yn is erbyn 2033 nag y byddai wedi bod fel arall, pe na bai unrhyw newid i'r polisiau mudo presennol, a 9.3% yn is pe bai dim mudo net o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

- Er y byddai tariffau newydd yn creu rhwystrau a beichiau newydd i sawl sector o'r economi, byddai effaith niweidiol rhwystrau nad ydynt yn dariffau hyd yn oed yn fwy. Byddai rhwystrau o'r fath yn cynnwys gwiriadau ychwanegol wrth ffiniau a fyddai'n arafu ac yn ychwanegu rhywfaint o ansefydlogrwydd at drafnidiaeth cludo newydd a gofynion gweinyddol, megis ardystio cydymffurfedd â safonau'r UE ar gyfer nwyddau a gaiff eu hallforio o'r DU.

- Fesul pen o'r boblogaeth, byddai Cynnyrch Domestig Gros tua 7.6% yn is pe ceir Brexit heb gytundeb gyda dim newid i bolisiau mudo, ac 8.1% yn is lle ceir hefyd bolisiau yn arwain at ddim mudo net o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae hyn gyfystyr â thua £2,500 o'r prisiau presennol ar gyfer pob person.

- Byddai ymadael heb gytundeb hefyd yn ergyd sylweddol i gyllidebau cyhoeddus, gyda chynnydd o 3.1% mewn Cynnyrch Domestig Gros yn niffyg y llywodraeth mewn sefyllfa lle byddai'r mudo net o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn gostwng i ddim. Yn seiliedig ar y prisiau presennol, byddai hyn yn golygu bod angen dod o hyd i gyllid cyfwerth â thua £60 biliwn mewn trethi ychwanegol, neu wneud rhagor o doriadau i'r gyllideb, gan achosi

niwed difrifol i wasanaethau cyhoeddus: yn fras, mae hyn gyfystyr â holl gyllidebau referniw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd.

- Ni fyddai hyd yn oed cynnydd sylweddol yn lefel y mynediad at farchnadoedd y tu allan i'r UE o ganlyniad i bolisi masnachu byd-eang hynod o uchelgeisiol hyd yn oed yn sicrhau unrhyw liniaru sylweddol, er gwaetha'r hyn y mae'r Llywodraeth bresennol yn ei honni. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y cynnydd posibl yn 0.2% o Gynnyrch Domestig Gros ar ôl 15 mlynedd – ac nid yw hyn yn agos at wneud yn iawn am y golled o bron i 10%.

Fel y mae Atodiad B yn ei nodi, mae dadansoddiadau eraill yn adlewyrchu'r rhagolygon hyn yn fras. Er enghraifft, os ceir Brexit 'anhrefnus' heb gytundeb, mae Banc Lloegr yn amcangyfrif y byddai Cynnyrch Domestig Gros dros gyfnod o bum mlynedd yn cael ei effeithio'n negyddol i raddau mwy, a hynny yn 5.5% yn is na'r lefel a fyddai fel arall.

I'r rheini sy'n amau gallu daroganwyr economaidd i gael pethau'n iawn, rydym hefyd wedi cael rhai gwersi o'r byd go iawn.

Mae Banc Lloegr a dadansoddwyr economaidd eraill wedi dod i'r casgliad bod economi'r DU eisoes wedi arafu o ganlyniad i'r penderfyniad i ymadael â'r UE, a bod hynny wedi costio dros £80 biliwn i economi'r DU – mae hynny'n fwy na £1,000 y pen – ers refferendwm 2016.

Yn y cyfamser, mae lefel y buddsoddiadau wedi arafu'n ddramatig ers refferendwm yr UE. Mae Banc Lloegr wedi nodi tystiolaeth yn dangos bod lefel y buddsoddiadau tua 6%-14% yn is nag y byddai heb yr ansicrwydd sydd ynghlwm â Brexit.

Rydym hefyd wedi gweld nifer o fusnesau mawr yn cau a swyddi'n cael eu colli ar raddfa fawr, gydag effaith sylweddol ar Gymru. A chredwn y gellid priodoli hyn, yn rhannol o leiaf, i'r don o ansicrwydd a ddaeth yn sgil trafodaethau Brexit, er enghraifft:

- Y penderfyniad i gau ffatri injans Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr (gan golli 1,700 o swyddi).
- Cau Schaeffler yn Llanelli (gan golli mwy na 200 o swyddi).
- Ansolfedd y ddau gwmni adeiladu, Dawnus (colli 700 o swyddi) a Jiscourt (colli 60 o swyddi).
- Y penderfyniad i gau ffatri Honda yn Swindon, sy'n rhoi tua 2,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru yn y fantol: mae Calsonic Kansei, yr oedd Honda yn gwsmer sylweddol iddo, eisoes wedi colli 95 o swyddi.

Yn y cyfamser, mae gwersi caled wedi bod i Lywodraeth y DU o ran negodiadau masnach ryngwladol. Tybiwyd y byddai 'pontio' Cytundebau Masnach Rydd presennol yr UE gyda 'thrydydd gwledydd' er mwyn i'r DU barhau i allu elwa ar yr un telerau, yn broses syml.

Mewn gwirionedd, mae nifer o wledydd wedi gweld hyn fel cyfle i wasgu consesiynau gan y DU, gyda rhai fel Siapan a Chanada yn gwrthod cwblhau cytundebau

masnach rydd o'r fath tan ei bod yn glir pa fath o Brexit a geir. Mewn gwirionedd, llai na hanner y cytundebau hyn sydd wedi'u pontio, ac mewn rhai achosion lle cafodd cytundebau eu cadarnhau, megis gyda'r Swistir, mae elfennau sylweddol o gytundeb presennol yr UE wedi'u hepgor, gan leihau eu gwerth.

Ar yr un pryd, mae bygythiadau i'r amgylchedd fasnachu byd-eang, seiliedig ar reolau, wedi dod yn fwyfwy amlwg, wrth i weinyddiaeth Trump ddilyn polisi ymosodol o osod tariffau ar nwyddau sy'n cael eu mewnfario i'r UDA mewn ymateb i fygythiadau gwirioneddol ac ymddangosiadol o'r UE, Tsieina ac economïau masnachu sylweddol eraill.

YR HYN Y BYDDAI YMADAEL HEB GYTUNDEB YN EI OLYGU

Byddai prif ganlyniadau ymadael heb gytundeb yn cynnwys:

Yn y tymor byr

- Gorfodi tariffau Sefydliad Masnach y Byd ar allforion o'r DU i'r UE, a hynny ar unwaith.
- Trafferthion ac oedi ar ffiniau, yn arbennig porthladdoedd y Sianel, o ganlyniad i reolau tollau a rheoleiddiol newydd yn Ffrainc, gan arwain at broblemau yn y sectorau manwerthu a logisteg; a hefyd oedi posibl ym mhorthladdoedd Cymru megis Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro.
- Trafferthion sylweddol yn y sector gweithgynhyrchu, gan na fyddai cadwyni cyflenwi bellach yn gallu gweithredu'n llyfn yn sgil gwiriadau

rheoleiddiol newydd a'r tebygolrwydd bod angen atal pethau yn y tymor byr, gan arwain at drafferthion o ran llif arian. Mae Arsyllfa Polisi Masnachu'r DU yn amcangyfrif y byddai newidiadau i'r berthynas fasnachu gyda'r UE a'r angen i gydweddu lefelau tariffau ar gyfer 'trydydd gwledydd' gyda rhai 27 gwlad yr UE, yn arwain at golli incwm gwerth £18 biliwn yn sector gweithgynhyrchu'r DU – neu mwy na £7,000 y gweithiwr. Byddai hyn, bron yn sicr, yn arwain at golli swyddi.

- Argyfwng mawr yn y sector bwyd-amaeth, wrth i'r farchnad ar gyfer cig oen o Gymru chwalu o ganlyniad i dariffau'r UE, a sector bwyd môr Cymru – sy'n allforio 90% o'r hyn y mae'n ei gynhyrchu – yn cael ei niweidio'n ddifrifol gan oedi tebygol a chyfyngiadau mewn trafndiaeth cludo nwyddau i 27 gwlad yr UE. Byddai hyn yn ei dro yn arwain at argyfwng gwirioneddol yn ein cymunedau gwledig, ac yn effeithio ar ffyniant y Gymraeg.
- Pob un ohonom fel defnyddwyr yn gweld dirywiad i'n safon bywyd o ganlyniad i chwyddiant yn sgil dibrisio'r bunt, sy'n codi prisiau cartref ac yn gwneud gwyliau tramor gryn dipyn yn ddrytach, a chyflwyno tariffau ar rai mewnforion.
- Y risg uchel ac uniongyrchol o ddirwasgiad a chrebachiad yn yr economi'n gyffredinol.

Yn y tymor hir

- Heb unrhyw lwyddiant i sefydlu perthynas fasnachu newydd gyda'r UE yn gyflym, byddwn yn gweld y sector

gweithgynhyrchu'n crebachu ymhellach, gyda llai a llai yn cael ei fuddsoddi, yn arbennig gan fusnesau rhyngwladol sydd â marchnadoedd allforio pwysig yn yr UE.

- Bydd camau unochrog i ryddhau masnach drwy dariffau heb gytundeb yn cynyddu'r gystadleuaeth ar gyfer gweithgynhyrchwyr neu broseswyr y DU sy'n gwerthu eu cynnyrch ym marchnad y DU yn unig, pe bai tariffau'n diflannu ar fewnforion eraill gan gynhyrchwyr cost isel o wledydd heb safonau amgylcheddol na marchnad lafur cyfatebol.
- Cyfraddau twf sy'n is na'r duedd yn economi'r DU, gan arwain at safonau byw yn aros yn yr unfan.
- Pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus, gan arwain at drethi uwch, ac hyd yn oed llai o wariant cyhoeddus, neu gyfuniad o'r ddau.
- Effaith negyddol debygol ar gynhyrchiant yn sgil llai o arbenigeddau.

Bydd hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan fyddwn o bosibl yn gweld y system fasnachu rhyngwladol sy'n seiliedig ar reolau yn chwalu. Mae'r Unol Daleithiau wedi bygwth tynnu'n ôl o Sefydliad Masnach y Byd, ac mae'n rhoi fetto ar benodiadau i 'Gorff Apeliadol' Sefydliad Masnach y Byd, sy'n hanfodol i ddatrys anghydfodau masnach tra ceir pryderon cynyddol am i ba raddau y mae mentrau gwladwriaethol Tsiena yn gweithredu o fewn egwyddorion y farchnad.

Byddai Brexit heb gytundeb yn cael effaith negyddol ar y DU gyfan, ond mae llawer o waith dadansoddi economaidd yn awgrymu y byddai waethaf

mewn ardaloedd lle mae'r economi'n dal i ddibynnu llawer ar y sector gweithgynhyrchu.

EIN RHESYMAU DROS FOD O BLAID AROS A DIWYGIO

Fel y mae Atodiad B yn ei ddangos, y brif ddadl dros aros yn yr UE yw y byddai unrhyw fath o Brexit yn niweidiol i economi Cymru a'r DU.

Mae Banc Lloegr a'r Trysorlys yn awgrymu y byddai cael gwared ar ansicrwydd Brexit, sy'n parhau i fwrw cysgod dros hyder economaidd, yn arwain at roi ysgogiad sylweddol i'r economi, a fyddai hefyd yn helpu cyllid cyhoeddus ac yn rhoi cyfle i lunio polisi ariannol ehangach.

O fewn yr UE, sy'n pennu nifer cynyddol o arferion ar lefel fyd-eang o ran safonau cynhyrchion, byddem yn parhau i allu dylanwadu yr amgylchedd rheoleiddiol sy'n llywio ein heconomi. Byddai hyn yn ein galluogi i weithio gyda llywodraethau a chyrrff gwleidyddol tebyg eraill i geisio sicrhau mesurau diwygio blaengar i gynnwys:

- Targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau a diddymu allyriadau carbon net, a chanolbwyntio ar 'dwf gwyrdd' a'r economi gylchol, yn seiliedig ar Gynllun Buddsoddi hirdymor newydd yr UE, a fydd yn helpu i sicrhau twf economaidd heb or-ddefnyddio adnoddau na ellir eu hadnewyddu.
- Ffordd flaengar o ymdrin â threthi – yn arbennig, codi trethi ar elw corfforaethau rhyngwladol.

- Parhau i hyrwyddo masnach ryngwladol yn seiliedig ar reolau – gan roi hwb i ymdrechion yr UE i weithio gyda gwledydd tebyg eraill i ddiwygio Sefydliad Masnach y Byd.
- Pwyso i barhau i agor y Farchnad Sengl mewn gwasanaethau.
- Mesurau gwarchod cryfach o hawliau'r farchnad lafur, gan gynnwys isafswm cyflog ar draws yr UE, rhoi diwedd ar gontractau dim oriau a hunangyflogaeth ffug, a chreu Awdurdod Llafur Ewropeaidd cryfach i sicrhau nad yw symudedd llafur o fewn yr UE yn arwain at danseilio telerau ac amodau gweithwyr yn y DU.
- Pwysau parhaus i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) er mwyn rhoi ffocws llawer yn gryfach ar wobrwyo cynhyrchu nwyddau amgylcheddol yn hytrach na thaliadau sylfaenol awtomatig.
- Ymdrechion parhaus i gynyddu lefel y tryloywder wrth wneud penderfyniadau o fewn yr UE, yn arbennig trafodion Cyngor y Gweinidogion lle mae llywodraethau cenedlaethol yn gweithredu fel 'cyd-ddeddfwr' o fewn Senedd Ewrop a gaiff ei hethol yn uniongyrchol.

Rhybuddion am ymadael heb gytundeb ar draws sectorau

Mae sector ceir y DU wedi rhybuddio y byddai ymadael heb gytundeb yn costio £50,000 y funud iddynt o ganlyniad i oedi wrth ffiniau. Dywedodd y Gymdeithas Gweithgynhyrchwyr a Masnachwyr Moduron y byddai oedi wrth gludo cydrannau i ffatrioedd cynhyrchu, ynghyd â thariffau Sefydliad Masnach y Byd a allai ddod i rym pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, yn ergyd enbyd i allu'r sector i fod yn gystadleuol. Mehefin 2019

Rhybuddiodd Consortiwm Manwerthu Prydain y byddai'r dyddiad tyngedfennol o 31 Hydref yn dod ar yr amser gwaethaf posibl. Dywedodd y Prif Weithredwr, Helen Dickinson, bod y dyddiad newydd yn cyd-fynd â'r cyfnod paratoi prysuraf ar gyfer y Nadolig a Dydd Gwener Du, sef y cyfnodau masnachu prysuraf, gan fygwth achosi trafferthion i gwsmeriaid a busnesau, a gwneud casglu nwyddau wrth gefn bron yn amhosibl. Gorffennaf 2019

Mae gwaith dadansoddi gan Hybu Cig Cymru yn awgrymu y gallai 92.5% o'n masnach allforion cig oen ddiflannu os awn dros ddibyn Brexit ar 31 Hydref. Gorffennaf 2019

Ysgrifennodd Make UK at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ddiweddar i ddweud wrtho y byddai ymadael heb gytundeb yn drychineb i'r sector gweithgynhyrchu, gan ddinistrio'r cwmnïau bach a chanolig hynny sy'n asgwrn cefn i fyd busnes yn y DU. 24 Gorffennaf 2019

Mae ymchwil gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi dod i'r casgliad y bydd nifer o'r canlyniadau sy'n deillio o ymadael heb gytundeb yn cael eu teimlo am flynyddoedd i ddod – gan ddal economi'r DU yn ôl am y degawd a mwy nesaf. Gorffennaf 2019

Daeth ymchwil gan y Ffederasiwn Busnesau Bach i'r casgliad bod dros un o bob deg (11%) o gwmnïau llai yn dweud y byddent yn rhoi'r gorau i allforio i'r UE yn gyfan gwbl pe bai'n rhaid iddynt lenwi datganiadau tollau ychwanegol. Awst 2018

5 Mudo

YR HYN A DDYWEDWYD GENNYM YN DIOGELU DYFODOL CYMRU

Yn **Diogelu Dyfodol Cymru**, roeddem yn ceisio llunio polisi a fyddai'n cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol y Farchnad Sengl, gan geisio mynd i'r afael hefyd â'r pryderon ynghylch cyflogau isel ac amodau gwaith gwael a oedd yn amlwg yn sail i'r bleidlais dros Ymadael yn 2016. Y prif reswm dros hyn oedd i alluogi perthynas yn y dyfodol â 27 gwlad yr UE a fyddai'n sicrhau mynediad llawn a dirwysr at y Farchnad Sengl, oystyried bod yr UE yn mynnu nad oedd modd gwahanu'r pedwar rhyddid (cyfalaf, nwyddau, gwasanaethau a llafur).

Yn **Diogelu Dyfodol Cymru** a'n dogfen bolisi fanylach, **Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**, gwnaethom ddadlau dros gael agwedd hyblyg, ond wedi'i rheoli, tuag at fudo, agwedd a fyddai'n helpu gyda'n nod o sicrhau mynediad llawn a dirwysr at y Farchnad Sengl, gan amlinellu ar yr un pryd y ffyrdd y gellid mynd i'r afael yn fwy effeithiol â chamfanteisio ar weithwyr.

Yn benodol, dyma ein dadleuon:

- Fel rhan o'n perthynas ag Ewrop yn y dyfodol, dylid edrych ar fewnfudo mewn ffordd wahanol, fwy ffafriol i wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir.
- Dylai mudo o Ewrop i'r DU yn y dyfodol fod yn fwy cysylltiedig â chyflogaeth – dylai'r sawl sy'n mudo naill ai fod wedi cael cynnig

swydd, neu fedru dod o hyd i un yn gyflym. Byddai pobl yn dal i allu symud yma i ddechrau eu busnesau eu hunain, ond byddai gwiriadau llymach i sicrhau bod y rhain yn achosion dilys o hunangyflogaeth, gan atal achosion o gamddefnyddio'r system.

- Dylai mudwyr o'r UE a'u teuluoedd allu parhau i gael mynediad at rhwyd ddiogelwch y system fudd-daliadau a'n gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr un modd fwy neu lai ag y maen nhw ar hyn o bryd.
- Roedd yn bwysig mynd i'r afael â'r pryderon gwirioneddol a oedd gan rhai pobl ynghylch mudo oherwydd nifer o resymau, gan gynnwys pwysau ymddangosiadol ar wasanaethau cyhoeddus, mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a'r graddau y gallai mudo gael effaith negyddol ar gyflogau ac amodau.
- Er bod yr holl dystiolaeth economaidd yn awgrymu na fyddai mudo ar ei ben ei hun yn debygol o gael effaith negyddol ar gyflogau yng Nghymru, mae camfanteisio ar weithwyr yn dal i fod yn broblem sylweddol sy'n tanseilio cyflogau ac amodau, a hynny oherwydd cyflogwyr diegwyddor a mesurau diogelu cyfreithiol annigonol. Byddai mynd i'r afael â'r achosion hyn o gamfanteisio yn gwella cyflogau ac amodau i bob gweithiwr.

- Mae'n hanfodol sicrhau hawliau dinasyddion yr UE sydd eisoes wedi ymgartrefu yng Nghymru – sydd wedi cael eu trin fel gwystlon mewn gêm gan Lywodraeth y DU.

YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU

Yn **Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**, rydym wedi darparu llawer o dystiolaeth fanwl ar bwysigrwydd gweithwyr o wledydd eraill yn yr AEE i ystod eang o sectorau a gwasanaethau cyhoeddus. Dymarai ohonynt:

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a Gofal Cymdeithasol
- Addysg Uwch ac Addysg Bellach
- Bwyd-amaeth, yn enwedig milfeddygon a phobl sy'n gweithio mewn lladd-dai
- Lletygarwch
- Gweithgynhyrchu Uwch

Mae mudwyr o'r UE yn cyfrannu'n helaeth at economi a chymdeithas Cymru. Yng Nghymru, mae 78.8% o'r bobl o oedran gweithio a anwyd yn yr UE mewn swyddi, o gymharu â 73.2% o gyfanswm y boblogaeth oedran gweithio. O'r bobl o oedran gweithio a anwyd yn yr UE ac sydd wedi mudo i Gymru, dim ond 9.8% ohonynt sy'n hawlio budd-daliadau oedran gweithio, o gymharu â 20.7% o drigolion Cymru a anwyd yn y DU.

Mae'r GIG yng Nghymru yn ddibynnol iawn ar weithwyr yr UE ar bob lefel. Ym mis

Medi 2016, roedd 1,313 o wladolion yr UE wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru, gyda 7% o'r meddygon a oedd yn gweithio yng Nghymru yn dod o'r UE.

Mae 7% o staff Addysg Uwch yn dod o'r UE ac maent yn hollbwysig i sicrhau ansawdd yr addysgu a gynigir yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, yn ogystal â hwyluso prosiectau ymchwil rhyngwladol. Mae tua 17% o'r myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn dod o wledydd tramor, sy'n ffynhonnell incwm sylweddol i'n sefydliadau.

Mae'r sector bwyd a diod yn ddibynnol iawn ar weithwyr sydd wedi mudo; mae 27% o'r rheini a gyflogir ym maes gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru wedi'u geni yn yr UE. Mae 90% o'r milfeddygon sy'n archwilio cig yn y DU yn ddinasyddion nad ydynt o'r DU, sy'n golygu bod y sector hwn yn arbennig o ddibynnol ar weithwyr o wledydd tramor ac mae 44% o'r milfeddygon sydd newydd gofrestru wedi cymhwyso mewn ysgolion milfeddygol yn yr UE.

Mae 5% o'r rheini sy'n gweithio yn y sector twristiaeth yng Nghymru yn dod o'r UE ac maent yn ymgymryd â swyddi a fyddai, yn ôl Sector Lletygarwch Prydain, yn anodd eu llenwi o blith poblogaeth y DU yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Mae gwaith gan yr Athro Jonathan Portes¹ hefyd wedi dangos, er bod gweithwyr o'r AEE yn ffurfio cyfran lai o'r gweithlu yng Nghymru na'r DU, bod y rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys llawer mewn swyddi

proffesiynol sy'n galw am weithwyr medrus, yn ennill llai na £30,000 y flwyddyn, ffigur y mae Llywodraeth y DU wedi awgrymu a allai fod yn drothwy ar gyfer mewnfudo yn y dyfodol.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydym hefyd wedi gweld tystiolaeth gynyddol o bwysau yn y farchnad lafur, er bod yr economi wedi arafu wrth i fewnfudo o'r AEE ostwng yn is nag y mae wedi bod ers degawd. Roedd arolwg chwarterol diweddaraf y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu yn dangos bod 61% o'r cyflogwyr a oedd yn ceisio llenwi swyddi wedi cael trafferth llenwi o leiaf un swydd, tra'r oedd 41% yn dweud ei bod yn dod yn fwyfwy anodd llenwi swyddi, o gymharu â dim ond 6% a oedd yn dweud ei bod yn dod yn haws gwneud hynny.

Yn y cyfamser, nid yw Llywodraeth y DU wedi llwyddo i roi sicrwydd pendant ynghylch cadw hawliau presennol dinasyddion yr AEE sy'n byw yn y DU, fel eu hawl o ran ailuno teuluoedd. Mae hyn er gwaetha lansio'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (sy'n rhoi cyfle i bob dinesydd o'r AEE sydd eisoes yn y DU cyn y dyddiad ymadael gael hawl i breswyllo'n barhaol). Hefyd, mae pryderon gwirioneddol y gallai cyflogwyr a landlordiaid wahaniaethu yn erbyn pobl nad ydynt yn gallu dangos tystiolaeth ar bapur o Statws Preswyllydd Sefydlog.

Ar yr un pryd, mae sgandal Windrush, pan gafodd dinasyddion y Gymanwlad a oedd yn amlwg wedi cael hawl

i aros yn y DU eu hatal rhag dod yn ôl i mewn i'r wlad neu gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, wedi rhoi lle i amau na ellir ymddiried mewn gwirionedd yn y Swyddfa Gartref i warchod hawliau preswylwyr o'r fath.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud chwaith i warchod hawliau dinasyddion y DU sy'n preswyllo'n barhaol yn 27 gwlad yr UE. Bu'r strategaeth negodi yn fethiant llwyr ac ni wnaeth Llywodraeth y DU lwyddo yn y Cytundeb Ymadael hyd yn oed i ddiogelu hawl dinasyddion y DU i arfer eu hawliau i barhau i symud yn rhydd i aelod-wladwriaethau eraill ar ôl Brexit. Pe bai'r DU yn ymadael heb gytundeb, byddai hawliau dinasyddion o'r fath i bob pwrpas yn dibynnu ar ddisgresiwn ac ewylllys da aelod-wladwriaethau unigol.

YR HYN Y BYDDAI YMADAEL HEB GYTUNDEB YN EI OLYGU

Mewn llawer o ffyrdd, mae effaith Brexit heb gytundeb ar fudo yn dal i fod yn aneglur oherwydd y dewisiadau y bydd Llywodraeth y DU yn eu gwneud ynghylch trefn fewnfudo newydd sydd i ddod i rym fis Ionawr 2021 fydd y mater tyngedfennol. Er nad ydym eto wedi gweld ffurf cynigion deddfwriaethol tebygol Llywodraeth bresennol y DU, mae'n amlwg y byddai Llywodraeth y DU yn cael gwared â'r drefn rhyddid i symud – mor fuan â 31 Hydref eleni o bosibl – yn ogystal â chael gwared ag unrhyw ffafriaeth benodol i ddinasyddion yr AEE yn ein system fewnfudo.

1 Portes, J a Forte, G, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Mudo yng Nghymru: Effaith newidiadau polisi ôl-Brexit' Chwefror 2017.

Mae safbwynt presennol Llywodraeth y DU wedi'i osod yn y Papur Gwyn, **The UK's Future Skills-Based Immigration System** (Rhagfyr 2018)². Mae'n cynnwys y canlynol:

- Tynnu hawliau'r drefn rhyddid i symud oddi ar ddinasyddion yr AEE.
- Cyflwyno llwybr sengl ar gyfer mudwyr sy'n weithwyr medrus ar sail ailwampio'r cynllun 'Haen 2' presennol. Byddai hyn yn golygu mai'r unig rai â chaniatâd i fewnfudo i'r DU fyddai unigolion sydd wedi cael cynnig swydd benodol, sydd wedi cael cymwysterau NVQ lefel 3 neu uwch, ac a fyddai'n ennill mwy na throthwy cyflog, a allai fod yn £30,000 y flwyddyn yn ôl yr awgrym, yn amodol ar ragor o ymgynghori.
- Diddymu'r gofyniad i wneud cais am fisa 'gweithiwr medrus' o'r tu allan i'r DU, y terfyn uchaf ar y nifer o fisâu Haen 2 sydd i gael eu rhoi, a'r 'prawf marchnad lafur preswyl' (sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr brofi na ellir eu llenwi o fewn marchnad lafur y DU) er mwyn symleiddio'r system i'r cyflogwyr. Ond mae'n debygol y bydd y Ffioedd Sgiliau Mewnfudwyr a'r Gordal lechyd Mewnfudo yn cael eu cadw, sy'n ychwanegu'n sylweddol at gostau cyflogwyr, yn ogystal â ffioedd fisâu.
- Caniatâd i aros am chwe mis ar ôl astudio i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr, gyda'r hawl i newid i'r llwybr fisa 'gweithiwr medrus' hyd at dri mis cyn diwedd eu cwrs.

- Cymhwyso'r rheolau presennol ar ailuno teuluoedd i'r rheini ar fisâu gweithwyr medrus.
- Cyflwyno cynllun gweithwyr dros dro newydd, tan 2025, fydd yn caniatáu i unigolion o wledydd 'risg isel' penodol ddod i'r DU i weithio am uchafswm o 12 mis. Ar ôl y cyfnod hwnnw, byddai'n ofynnol iddynt aros am 12 mis cyn y gallant ddychwelyd i'r DU. Ni fyddai hawl gan yr unigolion hyn i gyllid cyhoeddus ac ni fyddent ychwaith yn gallu dod ag aelodau o'u teulu gyda nhw.
- Y cyfle posibl i Gymru, yn ogystal â'r Alban, gael 'Rhestr o Swyddi lle mae Prinder' i osod blaenoriaethau o ran gweithwyr medrus sy'n mudo. Fodd bynnag, gan na fyddai'r swyddi hyn yn cael eu heithrio o'r trothwyon sgiliau a chyflog, ac yn absenoldeb cyfyngiad meintiol ar nifer y fisâu sydd i gael eu rhoi mewn blwyddyn, nid yw'n amlwg pa mor ddefnyddiol fyddai hyn.

Yn wahanol i ddinasyddion yr AEE eisoes yma cyn y dyddiad ymadael, ni fyddai'r rhai sy'n cyrraedd ar ôl ymadael â'r UE yn cael yr hawl i gael statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog. Ar ôl 31 Rhagfyr 2020, ni fyddai ganddynt hawl i aros, oni bai eu bod yn gymwys i wneud cais am fisa dan y system fudo newydd neu eu bod wedi gwneud cais i gynllun hawl i aros dros dro yr EU a fyddai'n eu galluogi i aros am dair blynedd o ddyddiad y cais.

O ran dinasyddion yr AEE sydd eisoes yn byw ac yn gweithio yn y DU, er y byddai'r cynllun Statws Preswlydd Sefydlog yn parhau i ddiogelu'r hawl i aros yn y DU, pe na cheir cytundeb, byddai eu hawliau yn llai nag a fyddent o dan y Cytundeb Ymadael. Yn benodol, byddai'r rheini sydd am ddod ag aelodau o'r teulu i'r DU (sy'n gofyn am dystiolaeth o enillion ar lefel benodol) yn ddarostyngedig i'r rheolau â dinasyddion y DU o 2022 ymlaen, yn hytrach na'u bod yn dal gafael ar yr hawliau ailuno teuluoedd mwy hael a roddir o dan gyfraith yr UE.

Ers iddo ddechrau yn ei swydd, mae'r Prif Weinidog, Boris Johnson wedi cynnig agwedd wahanol tuag at fudo, gan awgrymu cyflwyno system debyg i un Awstralia, sy'n seiliedig ar bwyntiau, a allai o bosibl arwain at ddull mwy hyblyg, o gymharu â'r un a nodir yn y Papur Gwyn. Ar ben hynny, mae'r gymuned fusnes – yn ogystal â Llywodraethau Cymru a'r Alban – yn gwrthwynebu'n chwynr yn awgrym o gael trothwy £30,000.

Fodd bynnag, ar sail y cynigion presennol, mae'r canlynol yn amlwg:

- Byddai cyflogwyr yn ei chael yn llawer anos recriwtio llafur lled-fedrus, heb unrhyw sgiliau, o'r tu allan i'r DU, ond pe bai'r trothwy £30,000 yn cael ei gadw, byddai llawer o swyddi sy'n galw am sgiliau, gan gynnwys ym maes gweithgynhyrchu, hefyd yn cael eu heithrio. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar economi Cymru. Amcangyfrifir y bydd mudo net i Gymru yn gostwng 57% dros y degawd nesaf a disgwylir i hynny arwain

² Wrth i'r ddogfen hon fynd i'r wasg mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn gwneud newidiadau i gynlluniau llywodraeth flaenorol y DU ar gyfer system fewnfudo newydd (a osodwyd yn y Papur Gwyn ar fewnfudo) ac y bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu ei chynlluniau yn fuan.

at ostyngiad o rhwng 1.1% ac 1.6% mewn cynnyrch domestig gros a 0.8% mewn cynnyrch domestig gros y flwyddyn dros y 10 mlynedd nesaf.

- Byddai problemau penodol i wasanaethau cyhoeddus, iechyd a gofal cymdeithasol yn bennaf, a byddai'r system gofal cymdeithasol yn dod yn agored iawn i brinder llafur. Dadl y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo yw y byddai hyn yn gorfodi lefelau cyflog uwch yn y sector gofal cymdeithasol er mwyn annog recriwtio lleol, ond byddai hyn wedyn yn gwaethygu'r argyfwng cyllid cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau gofal.
- O ran gweithwyr medrus (fel meddygon, milfeddygon a pheirianwyr), pan fydd prinder llafur, mae'n debygol y bydd mudwyr o'r gwledydd datblygol yn cymryd lle mudwyr o wledydd yr AEE. Gellir dadlau y bydd hynny'n cymryd y sgiliau a'r cynnydd y mae cymaint o'u hangen ar y gwledydd hynny oddi arnynt, heb roi sylw i'r canfyddiad o fudo ar raddfa fawr.
- Mae'r cynllun gweithwyr dros dro, sy'n ein hatgoffa o gynllun 'gastarbeiter' Almaenig y 1950au a'r 1960au, a wnaeth lawer i danseilio cydlyniant cymdeithasol a chymunedol, yn broblemus iawn. Mae'n debygol o annog camfanteisio ar lafur a thanseilio hawliau llafur yn fwy o lawer na'r drefn rhyddid i symud. O ran gweithwyr nad oes ganddynt hawl i aros mwy na 12 mis na hawliau i fudd-daliadau, ac sy'n gorfod aros am gyfnod ar ôl gadael y DU, ni fydd ganddynt unrhyw gymhelliant i gwyno am

amodau gwaith, ni waeth pa mor ofnadwy ydynt. Bydd cynllun o'r fath hefyd yn arbennig o anaddas ar gyfer lleoliadau gofal lle mae angen sicrwydd a pharhad o ran staff ar gleifion, yn anad dim, er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel.

- Bydd gwladolion yr AEE a ddaw i'r DU ar ôl 31 Hydref yn y tymor byr yn medru byw, gweithio ac astudio yn y DU. Fodd bynnag, byddant yn colli'r hawl hwn yn 2021. Mae hyn yn debygol o arwain at ostyngiad amlwg a sydyn yn nifer y bobl sy'n mudo o'r AEE. Bydd yn effeithio'n arw iawn ar recriwtio i swyddi yn y GIG ac Addysg Uwch lle gall cystadleuaeth ryngwladol fod yn ddwys. Yn wir, mae Sefydliadau Addysg Uwch Cymru eisoes yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau lle mae dinasyddion yr AEE wedi gwrthod cynigion am swyddi oherwydd nad oes digon o eglurder ynghylch eu hawliau i aros yn y dyfodol.
- Bydd cyfyngu'r Caniatâd Amhenodol i Aros Ewropeaidd i dair blynedd hefyd yn broblemus iawn o ran recriwtio myfyrwyr.

Er bod hon yn broblem benodol yn yr Alban, lle mae cyrsiau gradd yn para pedair blynedd fel arfer, bydd yn tanseilio ymarferoldeb llwybrau astudio penodol yng Nghymru hefyd, yn enwedig y rheini sydd â ffocws galwedigaethol cryf. Nid yw'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU am fisa ôl astudio dwy flynedd yn datrys y broblem ar gyfer y rhai sydd â chysiau hwy na tair blynedd.

- Gallai ansicrwydd ynghylch hawliau dinasyddion yr AEE sy'n preswyllo yn y DU, gan gynnwys eu hawl i aros tu hwnt i 2021, arwain at weld landlordiaid a chyflogwyr yn camwahaniaethu yn eu herbyn, gan eu hannog i ddechreio i'w gwledydd a gwaethygu'r prinder llafur a sgiliau sydd eisoes yn bodoli. Mae hyn oherwydd nad oes gobaith y bydd pob un o ddinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw ac yn gweithio yma wedi cael statws preswlydd sefydlog, ac ni fydd gan y rhai sydd wedi cael y statws unrhyw dystiolaeth bendant o'u statws. Byddant felly yn ei



chael yn anodd gwahaniaethu eu hunain rhag dinasyddion yr AEE sydd ond wedi cyrraedd ar ôl 31 Hydref 2019 ac ni fydd sicrwydd y gallant aros ar ôl 2021.

Ar wahân i hyn, pe ceir Brexit heb gytundeb, ni fydd modd i'r Comisiwn Ewropeaidd negodi hawliau dinasyddion y DU yn 27 gwlad yr UE oherwydd mae rheolau mewnfudo ar gyfer 'trydydd gwledydd' yn fater i bob llywodraeth genedlaethol, nid i'r UE. Mae llawer o aelod-wladwriaethau'r UE, fel Sbaen a'r Almaen, wedi gwneud cynigion unochrog i ddiogelu hawliau dinasyddion y DU sy'n preswyllo gyda nhw ar hyn o bryd. Ond mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y gallai problemau fel diffyg sicrwydd o ran mynediad at wasanaethau iechyd achosi llif sylweddol o ddinasyddion y DU, yn enwedig y rheini sy'n hŷn a sydd ag adnoddau cyfyngedig, yn ôl i'r DU. Mae hyn yn debygol o roi pwysau gwirioneddol ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

EIN RHESYMAU DROS FOD O BLAID AROS A DIWYGIO

Byddai aros yn yr UE, wrth gwrs, yn rhoi sicrwydd yn syth i ddinasyddion yr AEE yn y DU ac, yn wir, i ddinasyddion y DU sydd wedi ymgartrefu yn rhywle arall yn yr UE. Byddai'r ffactorau sy'n atal dinasyddion yr AEE rhag symud i'r DU, yn sgil ansicrwydd Brexit, yn diflannu, gan helpu cyflogwyr i recriwtio gweithwyr medrus a darparu hwb economaidd.

Fodd bynnag, ni fyddai cadw'r drefn rhyddid i symud yn golygu na fyddai cyfle i ddiwygio ein system yn y ffordd a nodir yn **Brexit a Thegwch o ran**

Symudiad Pobl.

Yn wir, oherwydd bod ein cynigion wedi'u llunio i gydfynd ag egwyddorion y drefn rhyddid i symud, gellid rhoi'r rhain ar waith o hyd, fel aelod-wladwriaeth o'r UE hyd yn oed.

Yn benodol, fel y dangosir yn **Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl**, mae cyfle da i wella'r gwaith o orfodi darpariaethau cyfreithiol a ddylai warchod gweithwyr rhag achosion o gamfanteisio. Yn wir, mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys arolygiadau safonau llafur a rhyddid undebau llafur, nid oes gan y DU ddigon o ddarpariaethau ar hyn o bryd yng nghyswllt cytuniadau rhyngwladol a chonfensiynau hawliau dynol sy'n pennu safonau llafur sylfaenol yn fyd-eang.

Mae gweithwyr sydd wedi mudo a rhai nad ydynt wedi mudo mewn perygl o ddiodef camfanteisio oherwydd nad yw'r safonau llafur sylfaenol a nodir mewn deddfwriaeth wedi'u gorfodi; ac mae'r perygl hwn yn waeth pan na fydd llawer o ddewisiadau eraill o ran cyflogaeth a phan na fydd gweithwyr yn siŵr o'u hawliau neu'n methu eu defnyddio.

Mae gorfodi cyfraith cyflogaeth yn y DU yn ddibynnol iawn ar yr hawliadau unigol a wneir mewn tribiwnlys cyflogaeth ac nid yw'n effeithiol yn wyneb camfanteisio ar weithwyr ac achosion eang o dorri hawliau cyflogaeth. Mae angen newid sylfaenol o ran cydymffurfio â safonau llafur, yn ogystal â chymau ar orfodi sy'n mynd i'r afael yn benodol ag anghenion gweithwyr yng Nghymru.

Hefyd, mae cyfle i godi ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth a hyrwyddo arferion da ledled Cymru yn y cyswllt hwn. Byddai gan weithwyr well mynediad at gyfiawnder yn sgil cefnogaeth ar gyfer cynlluniau ymglyfreithia strategol ac adnoddau ychwanegol wedi'u targedu ar gyfer sefydliadau ymgynghori ac eirioli. Byddai hyn yn cefnogi unigolion sy'n cyflwyno hawliadau yng Nghymru am safonau llafur sylfaenol fel bod anghydfodau ynghylch safonau llafur sylfaenol yn mynd ymlaen i dribiwnlysoedd cyflogaeth yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod esiampl yma drwy ei dull blaengar Gwaith Teg.

Yr un mor bwysig, mae hi hefyd yn bosibl gwneud cynnydd o ran sicrhau nad yw dinasyddion yr AEE sy'n dod i'r wlad hon i chwilio am waith mewn gwirionedd yn gallu aros ni waeth a ydynt yn llwyddo i gael gwaith ai peidio, gan ddefnyddio enghreifftiau fel Gwlad Belg a Norwy.

Mae cyfraith yr UE yn datgan yn glir nad yw'r drefn rhyddid i symud yn anghyfyngedig; ar gyfer y rheini nad oes ganddynt



**Brexit and Fair
Movement
of People**

Securing Wales' Future



fodd ariannol annibynnol, mae'r drefn rhyddid i symud yn gysylltiedig â gwaith. Yn gyfreithlon, gellir cael gwared ar unigolion sydd wedi preswyllo yn un o wledydd yr UE am fwy na chwe mis heb ddod o hyd i waith ac nad yw'n debygol iawn y byddant yn gwneud hynny.

Nid yw hyn wedi cael ei orfodi yn y DU erioed oherwydd gwendid ein system rheoli ffiniau a'r diffyg gweithdrefnau gweinyddol a fyddai'n galluogi Llywodraeth y DU i nodi statws marchnad lafur pobl sydd wedi mudo o'r AEE yn ddiweddar.

Pe baem yn aros yn yr UE, mae dadl gref o blaid newid, er mwyn mynd i'r afael â'r amheuaeth – ni waeth faint o sail sydd iddi – o 'dwrastiaeth fudd-daliadau' a bod mudwyr o'r UE yn rhwystro cyfleoedd i ddinasyddion y DU ddod o hyd i waith sy'n talu'n dda.

Un egwyddor bwysig o gyfraith yr UE sy'n berthnasol yma, fodd bynnag, yw peidio â

gwahaniaethu. Mae hyn yn golygu, pe bai'r DU yn aros yn aelod-wladwriaeth o'r UE, ni allai gyflwyno cynllun cardiau adnabod na gofynion o ran cofrestru preswylfa â'r awdurdod lleol (dwyr dechneg sy'n cael eu defnyddio fel arfer gan wledydd eraill yr AEE i gadw trefn ar statws marchnad lafur mudwyr), yn benodol ar gyfer dinasyddion yr AEE. Yn hytrach, byddai angen system sydd hefyd yn cynnwys preswylwyr a anwyd yn y DU.

Mae rhai wedi dadlau y gallai cerdyn adnabod cenedlaethol fod yn bris gwerth ei dalu i fynd i'r afael â phryderon am fudo 'heb reolaeth' o'r AEE.

Ond mae dewisiadau eraill. Yn fwyaf amlwg, mae cyfle gwirioneddol i ailwampio'r system rhifau Yswiriant Gwladol bresennol, rhif sydd gan holl ddinasyddion y DU er mwyn cyflawni hyn. Gellid ei gwneud yn ofynnol i fudwyr o'r AEE wneud cais am rif wrth gyrraedd y DU, a fyddai'n galluogi CThEM

i olrhain a oeddent yn gweithio neu a oedd ganddynt waith yn ystod y chwe mis cyntaf o breswyllo.

Fel aelod-wladwriaeth, byddai hefyd yn bosibl ac, mewn gwirionedd, yn angenrheidiol gweithio gydag eraill i barhau i ddiwygio'n raddol i ddatblygu telerau ac amodau ar draws gwahanol farchnadoedd llafur yn yr UE. Gallai hynny gynnwys diwygio rhagor ar y Gyfarwyddeb Gweithwyr a Adleolir a'r Gyfarwyddeb Gwaith Asiantaeth Dros Dro, i sicrhau nad yw staff sy'n cael eu trosglwyddo yn fyrdymor ar delerau ac amodau eu gwledydd genedigol yn cael eu defnyddio i danseilio'r rheini yn y wlad sy'n lletya. Gallai hefyd gynnwys datblygu cynigion ar gyfer Contract Cymdeithasol Ewropeaidd newydd, Awdurdod Llafur Ewropeaidd cryf i sicrhau y caiff mesurau amddiffyn llafur ledled yr UE a deddfwriaeth ar isafswm cyflog ar draws pob aelod-wladwriaeth eu gorfodi.

6 Cyllid a Buddsoddi

YR HYN A DDYWEDWYD GENNYM YN DIOGELU DYFODOL CYMRU

Yn ystod ymgyrch y Refferendwm yn 2016, honnodd arweinwyr yr ymgyrch Ymadael, a oedd yn cynnwys ein Prif Weinidog presennol, dro ar ôl tro na fyddai Cymru 'yr un geiniog ar ei cholled' ar ôl Brexit.

Roedd hynny'n arbennig o arwyddocaol o gofio bod Cymru, yn wahanol i'r DU yn ei chyfanrwydd, wedi bod ar ei hennill drwy gael mwy o gyllid o gronfeydd yr UE nag y mae'n ei roi i mewn, gan adlewyrchu'r ffaith bod ei hangen economaidd yn fwy, yn enwedig yn y Gorllewin a'r Cymoedd.

Yn **Diogelu Dyfodol Cymru** a'r dogfennau a gyhoeddwyd wedyn, **Buddsoddi Rhanbarthol ar ôl Brexit a Diwygio Trefniadau Ariannu a Chodi Cyllid y DU ar ôl Brexit**, aethom ati i esbonio sut mae Cymru ar ei hennill o ryw £680 miliwn y flwyddyn o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF), y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a chronfeydd penodol sydd gan yr UE ar gyfer ymchwil a datblygu, teithiau cyfnewid addysgol, amgylcheddol a diwylliannol, a phrosiectau cydweithredu. Aethom ati hefyd yn y dogfennau hynny i nodi'n prif ofynion o ran cyllid yn y dyfodol, gan ddadlau:

Rhaid i Lywodraeth y DU wireddu'r addewidion a wnaed gan yr ymgyrch Ymadael na fyddai Cymru yr un geiniog ar ei cholled oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE, drwy gynnal y lefelau cyllido y byddem

wedi'u disgwyl fel arall drwy ychwanegu at gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru heb frigidorri unrhyw gyllid na phennu unrhyw amodau.

- Rhaid i Lywodraeth y DU barchu datganoli, sy'n rhywbeth y mae pobl Cymru wedi pleidleisio o'i blaid ddwywaith, a sicrhau bod Cymru yn cael cadw'r ymreolaeth i ddatblygu ac i weithredu trefniadau i olynu'r ESIF, gan eu teilwra ar gyfer yr amodau gwahanol yng Nghymru o ran polisi, o ran deddfwriaeth ac o ran gweithio mewn partneriaeth.
- Rhaid i Gymru barhau i gael mynediad i bartneriaethau a rhwydweithiau Ewropeaidd pwysig sy'n cynnig ffynonellau cyllid ond rhaid iddi hefyd barhau i gael y manteision llawer ehangach o fod yn rhan ohonynt. Dylem gael cyfle i adeiladu ar waddol rhaglenni fel y Rhaglenni Cydweithredu Ewropeaidd; Horizon 2020; Erasmus+; Ewrop Greadigol; a Cysylltu Ewrop. Mae hefyd angen parhau i gael mynediad at gyllid ac arbenigedd Banc Buddsoddi Ewrop.
- Dylid disodli fformiwla Barnett â system newydd yn seiliedig ar reolau sy'n sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu o fewn y DU ar sail angen cymharol.
- Rhaid datblygu dull newydd, seiliedig ar egwyddor, o edrych ar rwydweithiau ariannu a chodi cyllid yn y DU, a dylid cynnwys y dull hwnnw mewn Cytundeb Cyllidol newydd.

- Rhaid diwygio systemau cyllid rhynglywodraethol y DU er mwyn sicrhau cydweithrediad a chytundeb, a rhaid hefyd sefydlu swyddogaeth glir o oruchwyliaeth annibynnol o'r trefniadau hyn.

YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU

Mewn gair, dim llawer: mae Llywodraeth y DU wedi methu ag egluro llawer o fanylion pwysig am drefniadau cyllido yn y dyfodol.

Yn 2016, rhoddodd Canghellor y Trysorlys ar y pryd sicrwydd y byddai Llywodraeth y DU yn gwarantu unrhyw wariant a fyddai wedi'i ymrwymo'n gyfreithlon o dan gynlluniau cyllido'r UE erbyn inni adael yr UE, fel y byddai taliadau'n cael eu gwneud gan Drysorlys EM pe na fyddent bellach yn cael eu darparu gan yr UE.

Ym mis Gorffennaf 2018, cafodd Gwarant Trysorlys y DU ei estyn i gynnwys unrhyw ymrwymadau i gyllido prosiectau a fyddai wedi cael eu gwneud cyn diwedd mis Rhagfyr 2020, hyd yn oed os bydd y taliadau ar ôl mis Rhagfyr 2020 ond cyn 2023; ac i warantu taliadau yn unol â'r lefelau ariannol presennol o dan y PAC tan ddiwedd Senedd bresennol y DU yn 2022.

Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd ariannol yn y tymor byr, nid oes unrhyw sicrwydd o gwbl yn y tymor canolig. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod rhoi unrhyw sicrwydd am lefelau cyllid amaethyddol na'r fethodoleg ar gyfer ei ddyrannu ar ôl 2022, ac mae perygl y gallai

Llywodraeth y DU a) lleihau lefel y cyllid ar draws y DU a/neu b) lleihau cyfran Cymru o gyllid amaethyddol y DU. Byddai hynny'n destun cryn bryder o gofio bod Cymru yn cael ychydig llai na 10% o gyllid y PAC ar hyn o bryd, cryn dipyn yn fwy na'n cyfran gyffredinol o boblogaeth y DU, oherwydd bod cyfran fawr o dir Cymru yn dir mylol.

Yn achos buddsoddiad economaidd rhanbarthol yn lle'r ESIF, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy anfoddhaol. Ym Maniffesto'r Blaid Geidwadol yn 2017, gwnaed addewid i gyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y DU gyfan. Cafwyd addewidion wedyn y byddai ymgynghoriad yn cael ei lansio erbyn diwedd 2017 ac yna, pan gafwyd oedi yn hynny o beth, erbyn diwedd 2018. Er i'r llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill roi cryn bwysau ar Lywodraeth y DU, mae'r sefyllfa'n parhau'n aneglur ac ni chafwyd unrhyw ymgysylltu ystyrion wrth baratoi'r ymgynghoriad arfaethedig ar y trefniadau i olynu'r rhai presennol. Er hynny, mae Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi awgrymu y gellid osgoi trafod y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru. Byddai hynny'n tansellio ein setliad datganoli.

Os na ellir atal Llywodraeth bresennol y DU, ymddengys y byddwn yn ymadael â'r UE ym mis Hydref heb i'r DU fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyllido yn y dyfodol, gan beryglu bywoliaeth busnesau, cymunedau a phobl ym mhob cwr o Gymru.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati ar unwaith, mewn ffordd glir ac eang ei gorwelion, i ddatblygu trefniadau buddsoddi rhanbarthol at y dyfodol. Mae rhanddeiliaid

a Phwyllgorau'r Cynulliad wedi gwneud cyfraniadau manwl i'r ddatl ar drefniadau i olynu'r rhai presennol. Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol, gan fanteisio ar arbenigedd ym myd busnes, ym maes llywodraeth leol, y byd academiaidd a'r trydydd sector. Rydym yn troi'n golygon tuag allan hefyd. Mae gwaith ar droed gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i sicrhau bod arferion gorau rhyngwladol ar ddatblygu rhanbarthol a llywodraethiant yn rhan annatod o'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

O ran trefniadau cyllido eraill, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg y byddai'r DU, hyd yn oed pe bai yna Gytundeb Ymadael, yn cael ei chau allan o nifer o raglenni a sefydliadau ariannol allweddol, yn fwyaf penodol, Banc Buddsoddi Ewrop.

Mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi unrhyw sicrwydd – hyd yn oed os ceir Brexit trefnus – y byddai'n dewis ymuno â rhai rhaglenni sy'n agored i 'drydydd gwledydd' ac y mae rhanddeiliaid yng Nghymru yn rhoi gwerth mawr arnynt. Maent yn cynnwys Rhaglen Fframwaith Horizon Ewrop, a fydd yn darparu €100 biliwn yn ystod y cyfnod 2021-2027 ar gyfer ymchwil a datblygu, cynllun Erasmus+, sy'n cynnig teithiau cyfnewid a lleoliadau ar gyfer myfyrwyr a staff ym maes Addysg Uwch, Addysg Bellach, ysgolion a darpariaeth alwedigaethol, ac Ewrop Greadigol. Yn achos Erasmus+, mae pryderon y gallai Llywodraeth y DU ddatblygu cynllun yn ei le ar gyfer Lloegr yn unig, ac nid yw eto wedi gwarantu y bydd unrhyw gyllid yn llifo yn ôl i Gymru i ganiatáu i ni i wneud yr un fath.

Efallai mai un peth yn unig sydd wedi dod yn gwbl gwbl amlwg

am gyllid yn y dyfodol. Wrth i Lywodraeth y DU barhau i wario biliynau ar baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb, ac wrth i economegwyr bwysleisio'r ergyd enfawr i'n heconomi ac i wariant cyhoeddus yn sgil Brexit, yn enwedig Brexit caled heb gytundeb, mae'n gwbl amlwg na fydd unrhyw 'ddifidend Brexit' o safbwynt gwariant cyhoeddus. Roedd honiadau'r ymgyrchwyr o blaid Ymadael y byddai Brexit yn rhyddhau hyd at £350 miliwn yr wythnos ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yng ngeiriau Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU, yn ganddefnydd amlwg o ystadegau swyddogol.

YR HYN Y BYDDAI YMADAEL HEB GYTUNDEB YN EI OLYGU

Byddai Brexit heb gytundeb – yn enwedig un lle byddai Llywodraeth y DU yn torri'r ymrwymiad i'r setliad ariannol y cytunwyd arno gan Theresa May – yn arwain yn anochel bron at atal taliadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer prosiectau a rhaglenni yn y DU. Er y byddai Gwarant Trysorlys y DU yn golygu y byddai'r mwyafrif llethol o'r prosiectau'n gallu parhau fel cynt, byddai hyn yn achosi problemau penodol i brosiectau trawswladol ac i'r partneriaethau lle'r ydym yn cydweithredu â chenhedloedd eraill. Felly yn achos Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon-Cymru, er enghraifft, ni fyddai Gwarant Trysorlys y DU ond yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i sefydliadau yng Nghymru sy'n rhan o'r prosiectau hynny, gan adael partneriaid yn Iwerddon heb warant a pheryglu dyfodol y rhaglen. Ac yn achos Erasmus+, dim ond talu costau myfyrwyr o'r DU a fyddai'n astudio mewn sefydliadau yn yr UE fyddai'r

warant, ac nid costau myfyrwyr o'r UE a fyddai'n astudio yn y DU.

Yn ogystal, ni fyddai prifysgolion a cholegau, sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a chwmnïau preifat yn y DU yn cael y manteision ariannol a'r manteision o ran cydweithredu sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni hyn.

Byddai hynny'n cael effaith drychinebus ar ymchwil, arloesi a busnesau Cymru, fel y gwelir yn y ddogfen **Cymru: Diogelu Ymchwil ac Arloesedd ar ôl Ymadael â'r UE**. Byddai'r sector addysg yn dioddef ergyd drom hefyd drwy golli cyfleoedd cyfnewid drwy Erasmus+. Er bod Llywodraeth y DU wedi bod yn ystyried a fyddai modd i'r DU gyflwyno cynllun yn ei le yn weddol gyflym, mae gennym amheuan mawr i ba raddau y byddai gan wledydd eraill ddiddordeb mewn bod yn rhan o gynllun o'r fath, naill ai ochr yn ochr â rhaglen a fydd yn olwyn Erasmus+, neu yn ei lle. Mae disgwyl i'r cyllid ar gyfer y rhaglen honno ddyblu yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Y mater mwyaf difrifol, ac un sy'n destun cryn bryder, yw'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw gadarnhad am gyllid rhanbarthol yn yr hirdymor. Dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae'r ESIF wedi bod yn bwysig iawn, gan helpu i wella'r economi a'r farchnad lafur yng Nghymru, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd wedi cael y rhan fwyaf o'r cyllid. Rydym wedi llwyddo i wneud hynny drwy ddefnyddio'r cyllid hwn i gefnogi blaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a swyddi, er enghraifft:

- Prentisiaethau (yr ESIF sydd i gyfrif am fwy na hanner yr holl gyllid ar gyfer prentisiaethau

yng Nghymru);

- Amrywiaeth eang o raglenni datblygu sgiliau, gan gynnwys Hyfforddeiaethau a'r Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct);
- Gwella seilwaith, megis moderneiddio Metro De Cymru a throi ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol;
- Cynnal ac ehangu ein sylfaen o ymchwil ac arloesi yng Nghymru, gan gynnwys Sêr Cymru a'n rhaglenni a'n mentrau Smart Cymru.
- Cymorth a buddsoddiad ar gyfer busnesau, drwy Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru;
- Twf ynni gwyrdd, yn enwedig ynni'r môr a gwelliannau amgylcheddol, gan ysgogi buddsoddiad preifat er mwyn datblygu potensial technoleg ynni'r llanw a thonnau.

Os na fydd cyllid ar gael yn ei le, neu os bydd Llywodraeth y DU yn herwgipio'r cyllid hwnnw, byddai Cymru yn gweld buddsoddiad mewn meysydd allweddol, sy'n hanfodol er mwyn inni fedru tyfu ac ar er mwyn lleihau anghyfartaledd economaidd rhwng y rhanbarthau, yn cael ei danseilio. Byddai diflaniad y PAC yn golygu hefyd y gallai llai o gyllid fod ar gael ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig ar adeg pa fyddai'r sector hwnnw o dan straen aruthrol.

Yn nhermau macroeconomaidd, fel yr ydym wedi gweld yn Adran 4, mae Brexit heb gytundeb yn debygol o gael effaith negyddol ar y pwrs cyhoeddus. Os bydd twf yn is, bydd refeniw trethi yn is hefyd: er enghraifft, ar sail amcangyfrifon gan economegwyr prif ffrwd sy'n dangos y byddai GDP 10% yn is na'r disgwyl, byddai cyfran poblogaeth Cymru

o'r gostyngiad a ddisgwylir bob blwyddyn mewn refeniw trethi o 2020-21 ymlaen yn rhyw £1.5 biliwn, a byddai hynny, wrth reswm, yn effeithio ar y gallu i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

EIN RHESYMAU DROS FOD O BLAID AROS A DIWYGIO

Fel y nodwyd eisoes, mae Cymru, yn wahanol i'r DU yn ei chyfanrwydd, wedi bod ar ei hennill ers nifer o flynyddoedd drwy gael mwy o gyllid o'r UE nag y mae'n ei roi i mewn, a gallwn fod bron yn sicr mai dyna fyddai'r sefyllfa ar ôl 2020 pe byddem yn aros yn yr UE.

Unwaith eto, byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael y lefel uchaf o gymorth o'r ESIF, er mwyn i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n parhau yn y DU a'r UE ac er mwyn helpu i ddod â swyddi newydd, gwell i Gymru ac arfogi pobl â'r sgiliau i'w gwneud. Ar ben hynny, mae Cynhadledd y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR) o'r farn y byddai'r DU gyfan yn debygol o weld cynnydd sylweddol yn y cyllid y byddai'n ei gael o'r Cronfeydd hyn yn gyffredinol.

Mae rhai yng Nghymru, wrth gwrs, yn amheus a ydym wedi elwa cymaint ag y dylem o gyllid Ewropeaidd, ac mae'n wir bod ein dealltwriaeth o'r ffordd orau i ddefnyddio'r cyllid hwn yn effeithiol ac yn strategol wedi gwella o un Rhaglen i'r llall. Byddai aros yn yr UE yn caniatáu i ni adeiladu ar y profiad hwn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu gan Gymru hanes ardderchog wrth weithredu'r ESIF, ac mae hynny'n cael ei gydnabod gan y Comisiwn Ewropeaidd a Swyddfa

Archwilio Cymru. Er enghraifft, rydym yn dal i wneud yn well na'r cyfartaleddau ar gyfer yr UE a'r DU o ran gwariant a ddatganwyd ar gyfer rhaglenni presennol yr ESIF, ac mae lefelau'r cyllid a ymrwymwyd ymhlith yr uchaf yn y DU.

Mae'n debygol, felly, y byddai unrhyw system a sefydlid gan yr UE i wobrwyo perfformiad da – rhywbeth a gyflwynwyd ar raddfa gweddol fach ar gyfer rhaglenni presennol yr ESIF – o fudd i Gymru.

Pe byddem yn aros yn yr UE, byddai defnydd da'n cael ei wneud o'r gwaith sydd wedi bod ar droed ers tro i ddatblygu'r trefniadau a fydd yn olynu'r cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn economïau rhanbarthol. Byddai'r gwaith hwnnw'n ein helpu i lywio Rhaglenni'r ESIF yng Nghymru yn y dyfodol, a fyddai'n cael eu cyflwyno o ddechrau 2021 ymlaen.

O ran y PAC, fel y nodwyd eisoes, mae ffactorau strwythurol yn golygu bod Cymru yn cael llawer mwy na dyraniad y pen o'r cronfeydd hyn, ac unwaith eto, byddai disgwyl i'r sefyllfa honno barhau. Mae bron yn sicr y byddai cynigion o fewn yr UE i gyfyngu ar y cymorth a delir i'r ffermydd mwyaf yn golygu y byddai Cymru yn cael cyfran hyd oed yn fwy o'r cyllid y mae'r DU yn ei gael o dan y PAC.

O fewn yr UE, byddem hefyd yn parhau i elwa ar gael chwarae rhan lawn yn rhaglenni cyllido newydd yr UE, megis y rhaglen a fydd yn olynu Horizon 2020 ac Erasmus+, sy'n debygol o weld cynnydd sylweddol iawn yn y cyllid a fydd ar gael. Byddem yn parhau'n gyfranddalwyr Banc Buddsoddi Ewrop, ac yn gymwys i gael cyllid oddi wrtho. Mae'r Banc hwnnw wedi darparu cyllid hanfodol ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau yng Nghymru, gan gynnwys y Campws Arloesi ym Mhrifysgol Abertawe a gwelliannau i gyflenwadau dŵr ac i'r ffordd yr eir ati i reoli gwastraff yng Nghymru. Yn unol â'n Strategaeth Ryngwladol newydd, byddem yn adeiladu ar waddol ein gwaith yn y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeidd a'n gwaith gyda phartneriaethau a rhwydweithiau Ewropeidd pwysig i ddylanwadu cymaint â phosib ar y llwyfan Ewropeidd a'r manteision fyddai'n cronni o hynny.

Wrth gwrs, byddai angen inni gydweithio ag eraill i ddwyn pwysau ar yr UE i barhau i ddiwygio'r ESIF a'r PAC.

Yn achos yr ESIF, byddem yn parhau i bwysu ar yr UE i leihau biwrocratiaeth ac yn ei annog i fabwysiadu ffordd fwy seiliedig ar risg o fonitro ac archwilio, a hynny oherwydd bod ein lefelau cydymffurfio yng Nghymru ar hyn

o bryd yn uwch o lawer nag mewn mannau eraill.

Byddem hefyd yn dymuno cyflwyno achos cryf dros ganiatáu i ardaloedd sydd â ffiniau morol, fel Iwerddon a Chymru, gael parhau i fod yn gymwys ar gyfer Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeidd; mae hyn o dan fygythiad, oherwydd nad oes gan y DU unrhyw ddylanwad ar y gwaith o ddatblygu rheoliadau'r UE ar gyfer yr ESIF yn y dyfodol.

O ran dyfodol polisi amaethyddol, byddem, fel y nodwyd eisoes, yn dwyn pwysau er mwyn i'r PAC gael ei ddiwygio'n sylweddol fel y bo llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar nwyddau amgylcheddol. Ac os gwelir ei bod yn amhosibl sicrhau unrhyw newid o bwys, byddem yn disgwyl cael manteisio, fel yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, ar yr hyblygrwydd i drosglwyddo cyfran sylweddol o'r cymorth a roddir ar gyfer ffermwyr i faes datblygu gwledig (o Golofn 1 i Golofn 2).

Yn olaf, gan adeiladu ar y llwyddiant strategol a gafwyd drwy sicrhau bod ESIF a Horizon 2020 yn ategu'i gilydd, fel y gwelir yn **Cymru: Diogelu Ymchwil ac Arloesedd ar ôl Ymadael â'r UE**, o fewn yr UE byddem yn sicrhau bod Cymru'n parhau i wneud mwy i gyrraedd at gyllid o'r rhaglen fframwaith newydd ar gyfer ymchwil rhyngwladol ar y cyd, Horizon Ewrop.



7 Mesurau Diogelu a Gwerthoedd Cymdeithasol ac Amgylcheddol

YR HYN A DDYWEDWYD GENNYM YN DIOGELU DYFODOL CYMRU

Yn **Diogelu Dyfodol Cymru** nodwyd yn gwbl glir gennym, bod angen i'r DU, fan leiaf, ymrwymo i gynnal y mesurau diogelu cyfredol ar gyfer defnyddwyr, yr amgylchedd ac mewn perthynas â materion cymdeithasol, gan gynnwys hawliau'r farchnad lafur.

Mae aelodaeth o'r UE ers degawdau wedi sicrhau bod gennym safonau ystyrllon ar gyfer y materion hyn sy'n hanfodol i ansawdd bywyd. Rydym yn ymfalchio yn y gwaith yr ydym wedi'i wneud o ran yr amgylchedd o ganlyniad uniongyrchol i ddeddfwriaeth a chyllid o'r UE, ac yn **Diogelu Dyfodol Cymru** fe wnaethom ddatgan ein hymrwymiad i dwf gwyrdd fel modd o feithrin twf a datblygiad economaidd. Mae safonau uchel ein sector bwyd a diod, ein hawliau i gael gofal iechyd cyfatebol, ynghyd â mesurau diogelu cyfatebol mewn perthynas â chyflogaeth, materion cymdeithasol, cydraddoldeb a defnyddwyr, oll wedi'u seilio ar gorff sylweddol o ddeddfwriaeth UE sy'n diogelu ein llesiant amgylcheddol a chymdeithasol, ac yn **Diogelu Dyfodol Cymru** nodwyd yn ddigon clir gennym na fyddem yn derbyn unrhyw ddirywiad mewn perthynas â hwy.

Mae parchu cydraddoldeb a hawliau dynol yn rhan annatod o DNA Llywodraeth Cymru. Yn **Diogelu Dyfodol Cymru** cydnabuwyd llwyddiannau

ymgyrchwyr dros gydraddoldeb ers i'r DU ymuno â'r UE, gan sefydlu egwyddor arweiniol na ddylai ymadael â'r UE ar unrhyw gyfrif leihau ein sylw i hyrwyddo cydraddoldeb a herio camwahaniaethu ble bynnag y mae'n bodoli. Gan gydnabod y cysylltiad agos rhwng anghydraddoldeb a thlodi, ymrwymwyd hefyd i fuddsoddi mewn mesurau i fynd i'r afael â thlodi a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol.

YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU

Unwaith y cychwynwyd ar y trafodaethau gyda'r UE, daeth i'r amlwg yn gyflym y byddai'r 27 gwlad yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gynnal cydberthynas gref rhwng marchnad lafur a safonau amgylcheddol er mwyn cael bod yn rhan o bartneriaeth economaidd gynhwysfawr yn y dyfodol. Caiff safonau o'r fath eu hystyried yn rhai hanfodol i sicrhau bod yr UE a'r DU yn cael eu trin yn yr un modd – ac yn wir y mae trafodaethau masnach rhyngwladol yn canolbwyntio'n fwyfwy ar faterion o'r fath.

Yn rhannol o ganlyniad i'r negeseuon clir hyn, gwnaed addewid ar ôl addewid gan Lywodraeth y DU o dan arweiniad Theresa May, y byddai'r hawliau a'r mesurau diogelu sydd gennym ar hyn o bryd o ganlyniad i ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn parhau. Felly yn y Papur Gwyn ar ein Perthynas yn y Dyfodol gyda'r UE, cafwyd addewid gan y Llywodraeth:

- Yn achos cymorth gwladwriaethol, byddem yn parhau i weithredu rheolau tebyg i'r rhai yn yr UE, ac yn diweddarau ein fframwaith deddfwriaethol yn unol ag esblygiad cyfundrefn yr UE
- O ran safonau amgylcheddol a'r farchnad lafur, byddem yn gwarantu na fyddai unrhyw wyro o'r status quo pan fydd y DU yn ymadael
- O ran y newid yn yr hinsawdd, byddem yn cynnal safonau uchel gan nodi dyhead y DU i fod ar flaen y gad
- Byddai'r DU yn cynnal y lefel uchel o fesurau diogelu i ddefnyddwyr
- Dylai ein perthynas o ran diogelwch fod wedi'i seilio ar barchu hawliau dynol.

Nid yw'n glir o gwbl bod Llywodraeth bresennol y DU yn teimlo bod rhaid cadw at yr ymrwymadau hyn, ac yn wir mae hi wedi awgrymu bod y DU am droi cefn ar yr ymrwymadau i drin pawb yn yr un modd.

Mae llawer o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod Llywodraeth y DU yn bwriadu dilyn argymhellion rhai melinau trafod, sef y dylai'r DU gynnal rhaglen sylweddol o ddadroleiddio, torri safonau'r farchnad lafur a safonau amgylcheddol er mwyn cystadlu'n rhatach yn yr economi fyd-eang: mewn geiriau eraill, troi'r DU i fod yn Singapôr Ewropeaidd.

Er enghraifft:

- Mae'r Sefydliad Materion Economaidd wedi dadlau bod rheoliadau'r UE yn mynd yn fwy niweidiol i les a thwf defnyddwyr, gan roi BBaChau arloesol sy'n hanfodol i economi'r dyfodol o dan anfantais o'u cymharu â busnesau mwy.
- Mae Open Europe wedi cynnig bod rhaid lleihau ar unrhyw gamau i drin pawb yn yr un modd gan y byddai gwneud hynny yn cyfyngu ar allu'r Llywodraeth i reoleiddio meysydd gan gynnwys cyflogaeth, trethi a'r amgylchedd.

Mae ffigurau allweddol o felinau trafod o'r fath bellach wrth galon y Llywodraeth.

Mae'r tair blynedd ddiwethaf hefyd wedi dangos pa mor anodd y gallai fod i ail-greu'r safonau amgylcheddol presennol y tu allan i'r DU. Mae sefydliadau anllywodraethol wedi mynd ati'n gwbl briodol i fynegi eu pryderon sylweddol ynghylch y ffaith nad yw cynigion Llywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr yn Mil yr Amgylchedd yn darparu unrhyw un o'r llwybrau cyfreithiol sydd ar gael yn yr UE i ddinasyddion unigol allu cymryd camau cyfreithiol pan nad yw prosesau'r llywodraeth o ran gweithredu a gorfodi egwyddorion a deddfwriaeth amgylcheddol yn ddigonol. Yn yr un modd, byddai'r cynnig arfaethedig i ddisodli System Masnachu Allyriadau ar draws yr UE â threth yn y cyfnod byr wedi Brexit yn dangos bod ein mesurau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn gwanhau, ar yr union adeg pan fo poblogaethau'r byd yn gofyn am ragor o weithredu.

Mae refferendwm yr UE wedi creu rhaniadau mewn teuluoedd, cymunedau a chymdeithas, a fydd yn cymryd cenhedlaeth i'w gwella. Mewn rhai achosion mae wedi arwain at gynyddu'r tensiynau mewn cymunedau a mwy o achosion o droseddau casineb. Gydag ansicrwydd ychwanegol Brexit heb gytundeb, gallai'r tensiynau hyn waethygu ymhellach. Dyna pam rydym ni'n buddsoddi'n gadarn mewn gwaith i hyrwyddo cydlyniant cymunedol, gan dawelu meddyliau grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o ddiodef troseddau casineb a helpu dioddefwyr.

YR HYN Y BYDDAI YMADAEL HEB GYTUNDEB YN EI OLYGU

Mae bron yn sicr, o ystyried y pwysau enfawr fydd ar economi'r DU ar ôl Brexit heb gytundeb, safbwynt ideolegol Llywodraeth y DU a'r diffyg cyfyngiad o ganlyniad i beidio â thrafod cytundeb masnach rydd gyda'r UE, y byddai temtasiwn i Lywodraeth y DU gystadlu drwy danseilio safonau'r UE.

Hyd yn oed pe na bai hyn yn digwydd, mae'n anochel bron y byddai'r DU yn dechrau cwmpo tu ôl yn eithaf cyflym wrth i bolisiau'r UE fynd rhagddynt.

Er bod diogelu'r amgylchedd yn faes sydd wedi'i ddatganoli, byddai datblygiad o'r fath yn niweidiol tu hwnt. Pe bai Llywodraeth y DU yn dadreoleiddio mewn perthynas â Lloegr, byddai pwysau economaidd sylweddol ar Lywodraeth Cymru i wneud yr un peth. Byddai'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn wynebu penderfyniadau anodd rhwng colli buddsoddiad economaidd

a chynnal safonau sy'n gyson â'n gwerthoedd a'n dyheadau.

O ran safonau'r farchnad lafur, sydd ar y cyfan yn faterion a gedwir yn ôl, byddai dadreoleiddio gan Lywodraeth y DU yn tanseilio'r ymdrechion i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a Gwaith Teg.

Ar yr un pryd, byddai nifer o'r hawliau ehangach yr ydym yn eu cymryd yn ganiataol yn cael eu peryglu gan Brexit heb gytundeb. Fel y mae Llywodraeth y DU ei hun wedi dweud, bydd teithio i'r UE yn debygol o fod yn fwy cymhleth, yn arbennig i'r rhai ag anifeiliaid anwes, na fydd bellach yn medru manteisio ar basbortau anifeiliaid, a'r rhai sy'n teithio mewn car, gan y bydd angen cardiau gwyrdd a thrwyddedau gyrru rhyngwladol. Ni fydd dinasyddion y DU bellach yn medru manteisio ar warant o hawliau trawsrwydweithio yn 27 gwlad yr UE, ni fyddant yn cael mynediad at ofal meddygol am ddim, ac fe fydd mwy o oedi a rheolaethau wrth ffiniau'r UE.

Ar ben hynny, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi digon o sicrwydd y bydd hawliau dynol unigolion yn cael eu cynnal ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio ag ymgorffori Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y gyfraith ddomestig. O ganlyniad, bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod hawliau'r Siarter yn parhau i gael eu hamddiffyn ar ôl ymadael â'r UE. Fodd bynnag, mae aelodau o Lywodraeth y DU wedi trafod y bwriad i ddiddymu'r ddeddf a rhanddirymu'r Confensiwn.



EIN RHESYMAU DROS FOD O BLAID AROS A DIWYGIO

Pe bai'r DU yn aros yn yr UE, yn amlwg byddem yn parhau i weithredu'r un safonau amgylcheddol a chymdeithasol ag aelod-wladwriaethau eraill – ac, yn wir yn cael cyfle i bwysu am newidiadau blaengar yn unol â'n blaenoriaethau polisi ni, megis Gwaith Teg.

Yn bwysicach fyth efallai, byddai parhau o fewn y DU yn rhoi cyfle gwirioneddol inni ddylanwadu'n gryf o blaid gweld dull o weithredu llawer mwy uchelgeisiol ar gyfer mynd i'r afael ag argyfwng y newid yn yr hinsawdd. Mae Cymru a'r DU eisoes wedi ymrwymo i dargedau uchelgeisiol, a Chymru bellach yn anelu at o leiaf 95% o ostyngiad mewn allyriadau erbyn 2050 a'r uchelgais o gyrraedd at allyriadau sero net. Nid yw'r UE wedi gwneud hynny eto. Byddai cymryd rhan lawn yng Nghyngor y Gweinidogion yn yr UE yn ei gwneud yn fwy tebygol sicrhau mwyafrif o blaid cymryd y cam

bychan hwn tuag at fynd i'r afael â chynhesu byd-eang.

Ac wrth gwrs, o ystyried bod yr UE yn gyfrifol am ryw 9.6% o allyriadau byd-eang, byddai gweithredu ar lefel Ewropeaidd yn cael tipyn mwy o effaith yn uniongyrchol ar allyriadau ac yn anuniongyrchol o ran rhoi pwysau ar wledydd eraill i gymryd camau tebyg.

Yn yr un modd, ar adeg pan welir mwy o ymosodiadau poblyddol, asgell dde ar amrywiaeth a pharch at leiafrifoedd, byddai aros yn yr UE yn rhoi cyfle i frwydro dros ymrwymadau presennol a rhagor o ymrwymadau i bolisiau ac arferion cydraddoldeb ledled Ewrop.

Rydym yn cydnabod, yn sgil dyfnder y rhaniadau a'r elyniaeth mae Brexit wedi eu creu, y bydd unrhyw ganlyniad i'r broses Brexit – gan gynnwys yr un a ffefrir gennym ni – yn amhoblogaidd tu hwnt gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth. Os byddwn yn aros yn yr UE, bydd angen ymgais bendant ar

lefel y DU, yma yng Nghymru ac yn ein cymunedau unigol i wella'r rhaniadau hynny a dod o hyd i ffordd i 'symud ymlaen'.

8 Materion Cyfansoddiadol a Datganoli

YR HYN A DDYWEDWYD GENNYM YN DIOGELU DYFODOL CYMRU

Er nad oedd cysylltiadau rhynglywodraethol yn rhan o'r trafodaethau gyda 27 gwlad yr UE, aethom ati yn Diogelu Dyfodol Cymru i esbonio y byddai unrhyw fath o Brexit yn golygu y byddai angen mynd ati i ailystyried y cysylltiadau hynny o ddirif. Aethom ati i ymhelaethu ar ein cynigion ar gyfer newid yn **Brexit a Datganoli**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017.

Yn gryno, roedd yn nodi'n cynigion am yr hyn y dylid ei wneud mewn ymateb i'r heriau cyfansoddiadol a rhynglywodraethol a ddeuai i'r amlwg pe byddem yn ymadael â'r UE, er mwyn sicrhau y byddai'r llywodraethau'n parhau i gydweithredu yn ôl yr angen.

Gwnaethom ofyn am drefniadau llywodraethu ar y cyd drwy gytundeb rhwng y pedair llywodraeth, gan ddatblygu'r traddodiad o gydweithio a gafodd ei feithrin drwy fod yn aelod o'r UE. Yn benodol, gwnaethom ddadlau y byddai'n rhaid mynd ati ar sail consensws i ddatblygu fframweithiau newydd ar gyfer y DU, gan ddefnyddio gwasanaethau cymrodeddu pe bai angen.

Gwnaethom ddadlau y dylid diwygio peirianwaith rhynglywodraethol y DU ar sail cydraddoldeb a pharch rhwng y llywodraethau gwahanol, gan wneud hynny drwy greu Cyngor y Gweinidogion newydd ar gyfer y DU, a fyddai'n cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth annibynnol, er mwyn cryfhau'r broses gwneud penderfyniadau.

Gwnaethom hefyd alw unwaith yn rhagor, fel yr ydym wedi'i wneud ers tro byd, i Gonfensiwn gael ei sefydlu ar Ddyfodol y DU er mwyn datblygu a sicrhau consensws ar gyfansoddiad i'r DU a fydd yn un cynaliadwy yn y tymor hir.

YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU

Mae'r profiadau a gafwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf wedi dangos pa mor annigonol yw'n trefniadau cyfansoddiadol o ran eu gallu i ymdopi â'r pwysau a ddaw i ganlyn Brexit. Ymddengys eu bod hefyd, ar yr un pryd, yn cyfyngu ar allu Llywodraeth y DU i ystyried y materion hyn mewn ffordd foddhaol. Cynnydd hynod araf sydd wedi'i wneud ar yr adolygiad o'r system Cyd-bwyllgorau Gweinidogion, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2018, a gwelwyd bod Llywodraeth y DU yn gyndyn o ymrwymo hyd yn oed i gynigion cymharol resymol, megis sefydlu prosesau diduedd i ddatrys anghydfodau.

Er iddi gytuno i sefydlu Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) â mandad clir i sicrhau cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar sut i ymdrin â Brexit, mae'n boenus o amlwg nad yw Llywodraeth y DU wedi parchu'r ymrwymiad hwnnw. Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru na Llywodraeth yr Alban ac ni chawsant hyd yn oed weld cyfres o fentrau allweddol, yn eu plith:

- telerau'r llythyr hysbysu am Erthygl 50;

- y cytundeb a wnaed ym mis Rhagfyr 2017 rhwng y DU a 27 yr UE;
- yr areithiau a wnaed gan Brif Weinidog y DU ar y pryd yn Fflorens ac yn y Mansion House;
- cytundeb Chequers a'r Papur Gwyn dilynol ar y Berthynas yn y Dyfodol;
- y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol.

Efallai mai'r hyn sy'n fwyaf arwyddocaol yw nad oedd unrhyw ymgynghori o bwys am Fil gwreiddiol yr UE (Ymadael), a fyddai, yn y lle cyntaf, wedi cyfyngu'n helaeth ar bwerau'r sefydliadau datganoledig i ddeddfu mewn meysydd lle mae ganddynt gymhwysedd datganoledig ac a arferai fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau o ran cyfraith yr UE.

Ar ôl ymgyrch hynod egniol y Senedd y Deyrnas Unedig a'r tu allan iddi, llwyddodd Llywodraethau Cymru a'r Alban i orfodi Llywodraeth y DU i dderbyn y dylai pwerau sy'n gysylltiedig â chymhwysedd datganoledig gael eu cadw gan y sefydliadau datganoledig, ac eithrio lle'r oedd Senedd y DU wedi gwneud penderfyniad i'w 'rhewi' dros dro.

Yn sgil hynny, llofnododd Llywodraeth Cymru Gytundeb Rhynglywodraethol. Hyd yma, mae hynny wedi gweithio'n eithaf da, gan roi sylfaen ar gyfer datblygu 'fframweithiau cyffredin' mewn meysydd yr ymddrin â nhw yn ffurfiol yng nghyfraith yr UE ac sy'n rhai lle mae'r holl Lywodraethau'n cytuno bod angen rhywfaint o gysondeb ar

draws y DU yn y dyfodol. Nid oes unrhyw bwerau wedi cael eu 'rhewi' hyd yma.

Er hynny, mae'r profiad a gafwyd gyda Bil yr UE (Ymadael) wedi dangos pa mor fregus yw'r trefniadau datganoli sydd gennym ar hyn o bryd. Daeth Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ddeddf, er bod Senedd yr Alban wedi gwrthod rhoi ei gydsyniad, a heb i'r Senedd gael unrhyw gyfle i gynnal dadl am y gwyrriad cyfansoddiadol hwnnw. Yn ogystal, dyfarnodd y Goruchaf Lys wedi hynny na ellid bellach weithredu Bil Ymadael Senedd yr Alban, er ei fod, at ei gilydd, o fewn cymhwysedd ar yr adeg y'i pasiodd yn Holyrood, oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi newid y rheolau.

Gwelwyd bod angen 'fframweithiau cyffredin' i ymdrin â materion fel cymorth amaethyddol, cemegau peryglus, pysgodfeydd a chymorth gwladwriaethol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, ac mae hynny wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd angen meysydd 'cydlywodraethu' y tu allan i'r UE, gyda rheolau a phrosesau

i fabwysiadu, gweithredu, adolygu a diweddarau cytundebau rhynglywodraethol sy'n sylfaen i'r fframweithiau cyffredin.

Yn fwy cyffredinol, mae Brexit wedi cadarnhau'r canfyddiad eang bod gwleidyddiaeth Prydain wedi torri:

- Yn ôl arolwg barn a gynhaliwyd gan YouGov ym mis Chwefror 2019, roedd 82% o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd gwleidyddiaeth Prydain yn gweithio'n dda, a dim ond 9% a oedd yn credu ei bod yn gweithio'n dda.
- Yn Archwiliad Cymdeithas Hansard o Ymgysylltiad Gwleidyddol (a gynhaliwyd rhwng misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2018), nodwyd bod 72% o'r ymatebwyr wedi dweud bod angen gwella 'cryn dipyn' neu 'lawer iawn' ar y sytem lywodraethu, a bod 54% ohonynt wedi dweud bod ar Brydain angen arweinydd cryf sy'n barod i dorri'r rheolau.

YR HYN Y BYDDAI YMADAEL HEB GYTUNDEB YN EI OLYGU

Mae'n amhosibl bod yn siŵr am yr hyn y byddai Brexit heb gytundeb yn ei olygu o ran sut y mae'r DU yn gweithio'n fewnol. Mae'r profiadau a gafwyd hyn yma yn awgrymu na fyddai gan Lywodraeth y DU y capasiti i fynd i'r afael â'r trafferthion byrdymor a'r difrod hirdymor i'r economi nac ychwaith â'r argyfwng cyfansoddiadol a allai ddod i ganlyn Brexit. Mewn geiriau eraill, byddai'r duedd yr ydym wedi'i gweld dros y tair blynedd ddiwethaf, o ran yr angen cynyddol am ddiwygiadau cyfansoddiadol, yn tyfu, ond byddai gan Lywodraeth y DU lai a llai o gapasiti i fynd i'r afael â hynny.

Ymddengys ein bod bellach ar ymyl dibyn Brexit heb gytundeb, ac un bygythiad penodol a ddaw i'w ganlyn bydd awydd Llywodraeth y DU i fynd ati'n gyflym iawn i lunio cytundebau masnach rhyngwladol.



Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod y man lle y mae cysylltiadau rhyngwladol a chymhwysedd datganoledig yn cwrdd yn creu tensiwn difrifol mewn cysylltiadau rhynglywodraethol o fewn y DU. Mae llawer o'r meysydd sy'n rhan ganolog o'r trafodaethau masnach, er enghraifft, safonau amgylcheddol, cymorthdaliadau amaethyddol, a mynediad i farchnadoedd, cymorth gwladwriaethol, a chaffael cyhoeddus, yn feysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Er mai mater i Lywodraeth y DU yn bennaf yw cysylltiadau rhyngwladol, mae gweithredu cytundebau rhyngwladol yn gymhwysedd datganoledig.

O dan Theresa May, gwnaed peth cynnydd wrth ddarbwylllo Gweinidogion y DU i gydnabod bod risg o argyfwng cyfansoddiadol pe byddai cytundebau rhyngwladol newydd yn golygu y byddai angen newid deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig ac nad oedd y llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig yn gyfforddus ag ef. Gwnaed cynnydd hefyd o ran darbwylllo'r Gweinidogion hynny i dderbyn mai'r ffordd o liniaru'r risg honno oedd cynnwys y llywodraethu datganoledig yn ystod pob cam o'r proses negodi pan fyddai materion cyfansoddiadol dan sylw.

Nid yw'n glir a yw'r weinyddiaeth bresennol yn Whitehall o'r un farn. Hyd yn oed os ydyw, mae cryn dipyn o risg y bydd Llywodraeth y DU, a hithau'n daer am gytuno ar gytundeb masnach gydag UDA neu Awstalia, yn cytuno ar bolisiau, e.e. caniatáu i gyw iâr clorinedig gael ei fewnforio neu ddileu'r cyfyngiadau ar gnydau GM, nad ydynt yn dderbyniol i un neu ragor o'r gwledydd datganoledig.

Yn sicr, nid darogan gwae er mwyn denu sylw a wneir wrth

awgrymu y byddai'r Undeb mewn perygl gwirioneddol o dan yr amgylchiadau hynny.

Hyd yn oed cyn i Brexit gael ei wireddu, mae'r posibilrwydd y bydd yr Alban yn cael ei thynnu allan o'r UE er bod mwyafrif clir o'r pleidleiswyr o blaid aros yn 2016, ac arolygon barn yn awgrymu bod mwyafrif hyd yn oed yn fwy o blaid hynny erbyn hyn, yn ysgogi galwadau am refferendwm arall ar annibyniaeth i'r Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae rhai arolygon barn wedi dangos y byddai mwyafrif o blith y pleidleiswyr o blaid ailuno'r dalaith â Gweriniaeth Iwerddon os ceir Brexit caled. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n anodd gweld sut y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod cytuno ar bleidlais ar y ffin, o gofio gofynion Cytundeb Gwener y Groglith.

Yn achos Cymru, pe bai naill ai'r Alban neu Ogledd Iwerddon, neu'r ddau, yn ymwahanu, byddai hynny'n golygu y byddai'r setliad cyfansoddiadol presennol cael ei ddadsefydlogi'n sylfaenol ac yn golygu hefyd y byddai'n anos mynnu hawliau'r sefydliadau datganoledig yn wyneb ymyrraeth gan San Steffan a Whitehall.

EIN RHESYMAU DROS FOD O BLAID AROS A DIWYGIO

Fe y nodwyd eisoes, nid y materion cyfansoddiadol sydd wrth wraidd y ddadl a ddylem barhau'n aelod o'r UE ai peidio: maent, yn hytrach, yn ganlyniad braidd yn anochel i weithredu'r penderfyniad ar Brexit.

Pe byddem yn aros yn yr UE, byddai'r problemau hynny'n llai difrifol, ond ni fyddent

yn diflannu'n llwyr. Yn wir, i raddau helaeth iawn, yr hyn y mae Brexit wedi'i wneud yw tynnu sylw at yr angen i gynnal adolygiad sylfaenol o'r trefniadau cyfansoddiadol er mwyn eu rhoi ar sail fwy teg, yn seiliedig ar barch cydradd rhwng y llywodraethau gwahanol yn y DU. Byddwn yn mynd ati yn y man i gyhoeddi set lawnach o gynigion yn hyn o beth.

Un mater penodol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y drafodaeth ar Brexit – ac un sy'n dilyn yn dynn ar sodlau'r diddordeb aruthrol yn y trafodaethau am y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Drawsatlantig, sy'n rhai y cefnwyd arnynt erbyn hyn – yw bod angen i'r sefydliadau datganoledig chwarae mwy o ran mewn trafodaethau ar bolisi masnach.

Os byddwn yn aros yn yr UE, bydd angen inni ddatblygu trefniadau mwy cadarn er mwyn sicrhau cytundeb y llywodraethau datganoledig i safbwynt Llywodraeth y DU ar drafodaethau masnach a gaiff eu cynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd. Dylai'r trefniadau hynny gyfateb i'r rhai sydd yn eu lle eisoes ar gyfer amaethyddiaeth, pysgodfeydd a datblygu rhanbarthol.

Yn fwy cyffredinol, os bydd refferendwm neu Etholiad Cyffredinol yn golygu y bydd y DU yn aros yn yr UE, mae'n amlwg y byddai angen inni weithio'n galed iawn i fynd i'r afael â'r ymdeimlad o ddieithrwch sydd wedi ysgogi, ac sy'n dal i ysgogi, sefyllfa lle y mae Brexit yn arwydd o anfonlonrwydd â'r dosbarth gwleidyddol.

9 Pontio



YR HYN A DDYWEDWYD GENNYM YN DIOGELU DYFODOL CYMRU

Roedd Llywodraeth Cymru ymhlith y sefydliadau cyntaf i ddadlau y byddai angen cyfnod pontio ar unrhyw broses Brexit er mwyn lleihau effaith niweidiol y newid aruthrol a ddaw yn sgil ymadael â'r UE. Yn **Diogelu Dyfodol Cymru**, dadleuodd Llywodraeth Cymru fod cyfnod pontio yn hanfodol gan y byddai'n amhosibl negodi cytundeb ymadael a gosod y sylfaen ar gyfer perthynas â'r UE yn y dyfodol, gan gynnwys prosesau cadarnhau, o fewn dwy flynedd. Mynegwyd gennym y pryderon dwys sydd gan fusnesau o ran y posibilrwydd o fod ar "ochr y dibyn", a gwnaethom ddadlau o blaid trefniadau pontio i sicrhau mynediad at y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau gydag ychydig o newidiadau i'n cysylltiadau masnachu hyd nes y byddai

modd negodi perthynas economaidd ddyfnach o'r newydd a bod y berthynas honno yn cael ei rhoi ar waith.

YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU

Wrth i 27 gwlad yr UE fynnu mai dim ond ar ôl inni ymadael â'r UE y bydd modd negodi manylion Partneriaeth Economaidd ar gyfer y Dyfodol, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod cael cyfnod pontio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod negodiadau o'r fath yn gallu digwydd heb ormod o dryblith economaidd.

I'r UE, mae'r gofynion ar gyfer cael cyfnod pontio o'r fath a Brexit trefnus wedi bod yn gwbl glir ers amser:

- cytundeb ar hawliau dinasyddion yr UE yn y DU yn y dyfodol;

- setliad ariannol i sicrhau bod 27 gwlad yr UE yn gallu cwblhau'r cyfnod cyllidebol presennol (hyd at fis Rhagfyr 2020) heb dorri'n ôl ar wariant na chynyddu cyfraniad yr aelod-wladwriaethau eraill;
- gwarantu'r trefniadau ar gyfer lwerddon sy'n cyfateb i Gytundeb Gwener y Groglith ac sy'n sicrhau nad oes ffin galed ar y tir ar ynys lwerddon;
- parhau i gymhwyso holl ddeddfwriaeth bresennol yr UE yn ystod y cyfnod pontio.

O safbwynt yr UE, roedd y Cytundeb Ymadael a gafwyd gyda Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2018 yn bodloni'r meini prawf hyn.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU bellach yn mynnu mai'r unig ffordd y gall gefnogi Cytundeb Ymadael yw os na

fydd y cynllun backstop ar gyfer lwerddon (sydd â'r nod o sicrhau nad oes angen rheoli ffiniau yn lwerddon) yn cael ei drafod. Mae'r UE yn mynnubod rhaid cynnwys y backstop, neu drefniadau ymarferol eraill sy'n adlewyrchu amcanion y cynllun hwnnw, yn y Cytundeb. O ganlyniad nid yw'n edrych yn debygol iawn y bydd y DU elwa ar gyfnod pontio.

YR HYN Y BYDDAI YMADAEL HEB GYTUNDEB YN EI OLYGU

Felly, byddai Brexit heb gytundeb yn golygu ymadael heb gyfnod pontio.

Mae Llywodraeth y DU yn credu, o dan amgylchiadau o'r fath y byddai'n rhaid ceisio darbwyllo'r UE i negodi cyfres o 'fân gytundebau', ond nid yw hynny'n edrych yn debygol ar union adeg ysgrifennu'r ddogfen hon. Er i'r UE ddeddfu ar nifer o drefniadau pontio, er enghraifft caniatáu i gludwyr nwyddau o'r DU barhau i gludo nwyddau i 27 gwlad yr UE ac oddi yno, neu i gwmnïau hedfan o'r DU barhau i hedfan i feysydd awyr yr UE, penderfyniadau unochrog oeddent ac yn gyffredinol mae cyfyngiadau amser ynghlwm wrthynt.

Yn aml clywir y dadl y bydd hi'n bosibl inni ddechrau pontio ar ôl inni gael ein rhwygo'n ddisymwth o'r UE heb gytundeb. Ond nid yw hynny'n rhoi ystyriaeth i'r ffaith mai trydedd wlad fydd y DU ar ôl ymadael â'r UE ac na fydd y trefniadau arbennig ar gyfer negodi a ragwelwyd o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad bellach yn gymwys.

Ym Mhennod 4 gwelwyd yr hyn y byddai Brexit heb gytundeb yn ei olygu i'r economi. Mae'n bwysig cofio, unwaith y bydd y DU wedi

ymadael â'r UE drwy neidio oddi ar y dibyn, nad oes ffordd hawdd o ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag y mae ar hyn o bryd.

Mae rhagdybiaethau cynllunio wrth gefn 'Operation Yellowhammer' Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd wedi wedi tynnu sylw at y risgiau tymor byr o Brexit lle byddwn yn cael ein rhwygo'n ddisymwth o'r UE, heb gyfnod pontio, gan gynnwys y posibilrwydd o:

- wynebu problemau o ran cael gafael ar feddyginiaethau a chyflenwadau meddygol;
- lleihad sylweddol yn y dewis o fwyd a llysiau ffres i ddefnyddwyr;
- Chwyddiant sylweddol, oherwydd bod y bunt yn dibrisio, gan gael effaith arbennig o negyddol ar bobl sydd ar incymau isel a chynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes o dan bwysau aruthrol;
- Cwmp ym y farchnad am gig oen a bwyd môr o Gymru.
- Anawsterau llif arian sylweddol i fusnesau maint bach a chanolig y mae eu model busnes yn ddibynnol ar gadwyni cyflenwi rhyngwladol integredig.

EIN RHESYMAU DROS FOD O BLAID AROS A DIWYGIO

Byddai aros o fewn yr UE yn amlwg yn dileu'r angen am bontio i berthynas â newydd â'r UE fel trydedd wlad.

Ond ar ôl gwastraffu tair blynedd, yn amlwg byddai angen pontio o fath gwahanol arnom. Mae enw da'r DU ymhlith ei phartneriaid yn yr UE wedi'i niweidio gan

anghymwystera ac agwedd haerllug Llywodraeth y DU at y trafodaethau.

Pe byddem yn parhau fel aelod-wladwriaeth, byddai angen inni fuddsoddi'n sylweddol yn yr ymdrech i wella hygrededd y DU – a gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan sylweddol yn y gwaith hwnnw, gan fod enw da gan Gymru o hyd ymhlith sefydliadau'r UE fel gwlad sy'n parchu rheolau ac sy'n gweithredu trefn cyllid yr UE yn effeithlon ac effeithiol.

Yr un mor bwysig, yn y tair blynedd ddiwethaf, nid yw'r DU wedi dangos y gallu na'r hygrededd i fod yn rhan o gyfres o negodiadau hanfodol ar gyfeiriad a pholisiau'r UE ar gyfer y dyfodol. Byddai'n rhaid inni drafod ar fyrder faterion megis:

- cwmpas a maint Fframwaith Ariannol Amlflwydd newydd (cyllideb yr UE ar gyfer y cyfnod 2021 – 2026)
- rheoliadau diwygiedig ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn yr un cyfnod;
- negodiadau ar gwmpas y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol;
- negodiadau ar flaenoriaethau ac ariannu'r rhaglenni sy'n olynu Horizon 2020, Erasmus+, Ewrop Greadigol a llu o raglenni eraill sy'n bwysig i randdeiliaid yng Nghymru.

I gloi, dylai profiadau'r tair blynedd a hanner diwethaf brofi bod y rhai sydd o blaid Ewrop wedi gorffwys ar eu rhwyfau i raddau dros y 40 mlynedd ddiwethaf yn hytrach na herio'r amheuan am Ewrop a sefyll yn gadarn dros y manteision o fod yn aelod o'r UE. Dylai ymgyrch lwyddiannus o blaid aros arwain at fudiad Ewropeaidd newydd yn y DU.

10 Casgliad

Mae'r papur hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion cymdeithasol ac economaidd oherwydd ar y meysydd hynny y byddai Brexit – ac yn benodol Brexit niweidiol heb gytundeb – yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar ein cyfrifoldebau fel Llywodraeth ddatganoledig.

Fodd bynnag, mae nifer o resymau eraill dros ein barn ni, fel Llywodraeth Cymru, mai parhau i fod yn aelod o'r UE yw'r dewis cywir i Gymru mewn unrhyw refferendwm yn y dyfodol:

- Mae'r UE wedi chwarae rhan hanfodol yn cynnal heddwch ar gyfandir Ewrop – dyna'r rheswm pam y mae arweinwyr o Winston Churchill ymlaen wedi cefnogi Ewrop unedig. Bu o gymorth i Orllewin Ewrop osgoi ailadrodd camgymeriadau trychinebus y cyfnod ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, pan arweiniodd awydd y buddugwyr am ddial ac iawndal at hau hadau'r Rhyfel Byd nesaf; ac fe ddarparodd sylfaen ar ôl 1989 ar gyfer ailadeiladu synnwyr o hunaniaeth gyffredin Ewropeaidd ar draws lle bu'r Llen Haearn ar un adeg.
- Mae'r UE, a'r ffaith bod y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn aelod-wladwriaethau, wedi darparu sefydlogrwydd yng Ngogledd Iwerddon ar ôl degawdau o drais a ymestynnodd i strydoedd Prydain Fawr hefyd.
- Mewn byd lle'r ydym yn gynyddol ddibynnol ar ein gilydd, nid yw'n gwneud synnwyr tynnu yn ôl o UE sydd â'r potensial, os yw'n dewis gwneud hynny, i lunio'r agenda byd-eang i roi sylw i'r Argyfwng Hinsawdd, ac sy'n rhoi cymorth pwysig mewn sawl cyfeiriad.
- Rydym ni yng Nghymru wedi elwa mwy na'r cyffredin o'r gefnogaeth annatod rhwng cenhedloedd sydd wrth wraidd y delfryd Ewropeaidd, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau cyffredin i gefnogi'r gwledydd, rhanbarthau a'r bobl mwyaf agored i niwed yn economaidd ar draws yr UE gyfan.
- Mae ein pobl ifanc, yn arbennig, yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y cyfle i deithio, gweithio, astudio a mwynhau yr hyn sydd gan rannau eraill o Ewrop i'w gynnig, heb fisas na thrwyddedau gweithio.
- Mae gweithio gyda phartneriaid eraill yn yr UE wedi'n diogelu. Mae bygythiad enfawr i'n diogelwch mewnol o dorri'n sydyn ar ein cydweithrediad â phartneriaid eraill yn yr UE, er enghraifft colli mynediad at gronfeydd data hanfodol, colli mynediad at y Gwarant Arestio Ewropeaidd, sy'n ei gwneud yn anos estraddodi unigolion dan amheuaeth o wledydd eraill yr UE, a cholli unrhyw gydweithio i rannu cudd-wybodaeth. Rhybuddiodd y cyn Weinidog Diogelwch, bellach yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, Ben Wallace ym mis Tachwedd 2018:

“We and Europe know, from bitter experience, that often when there is a mistake or when something has been missed that we find, time and time again, that it has been due to a failure of co-operation. A no-deal situation would have a real impact on our ability to work with our European partners to protect the public.”

- Byddai Brexit heb gytundeb yn arwain at golli cydweithrediad barnwrol sifil, gyda goblygiadau ar gyfer gallu busnesau i gael iawndal a'r gallu i ddatrys achosion yn gyflym pan fydd teuluoedd yn chwalu ar draws ffiniau

Yn y papur hwn, rydym wedi cyflwyno tystiolaeth pam fod Llywodraeth Cymru bellach yn credu'n angerddol mai aros yn yr UE yw'r opsiwn gorau i Gymru a'r DU yn gyfan.

Byddai Brexit heb gytundeb yn drychineb, gyda'r peryglon i'n llesiant yn cynyddu yn hytrach na phylu gydag amser. Byddai'n gwneud niwed sylfaenol i'n heconomi yn yr un modd ag y gwnaeth Llywodraeth Thatcher yn yr 1980au; bygwth ein hawliau yn y gwaith; tanseilio ein mesurau diogelu a'n safonau amgylcheddol; gwanhau ein gwasanaethau cyhoeddus drwy leihau'r sylfaen drethu a mynediad at sgiliau; lleihau ein mynediad at fuddsoddiad yn ein seilwaith, ein sylfaen ymchwil a'n sgiliau gan gynnwys, yn hanfodol, prentisiaethau; a bygwth datganoli.

I'r gwrthwyneb, mewn byd cynyddol rhyng-ddibynnol, byddai aros yn yr UE yn rhoi llwyfan o sefydlogrwydd economaidd i ni, a chyfle i weithio gydag eraill i weithredu'n gynyddol i herio'r argyfwng hinsawdd a gwella hawliau yn y gwaith. Byddai Cymru yn parhau i fod ar ei hennill o gronfeydd yr UE, a byddai dinasyddion Cymru'n parhau i fedru manteisio ar yr hawl i deithio, byw a gweithio ar draws Ewrop.

11 Atodiad A – Trosolwg o bapurau polisi Brexit

Drwy ein Papur Gwyn – **Diogelu Dyfodol Cymru** a phapurau polisi dilynol ar fasnach, mudo, buddsoddi rhanbarthol a datganoli, rydym wedi cyhoeddi tystiolaeth, dadansoddiadau a chynigion manwl ar gyfer Brexit a fyddai'n diogelu swyddi ac economi Cymru pe bai'r DU yn ymadael â'r UE.

Yn **Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl** amlinellwyd ein cynigion ar gyfer system fudo newydd sy'n creu cyswllt agosach rhwng mudo â chyflogaeth:

Cafodd ein gweledigaeth ar gyfer perthynas gyfansoddiadol sy'n sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU ei hamlinellu yn **Brexit a Datganoli**

Yn **Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit**, amlinellwyd ein galwad i Lywodraeth Cymru barhau'n gyfrifol am gyllid rhanbarthol a phenderfyniadau ar ôl Brexit, gan sicrhau nad yw Cymru'n colli ceiniog o gyllid:

Drwy ein papur **Y Polisi Masnachu: Materion Cymru**, amlinellwyd ein cynigion ar gyfer masnachu gyda'r UE ar ôl Brexit a chyflwyno'r ddadl pam y dylai'r DU gadw mynediad llawn i'r Farchnad Sengl Ewropeaidd ac aelodaeth o undeb dollau:

Mae newid radical yn y ffordd y caiff gwledydd y DU eu hariannu ymhlith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn **Diwygio Trefniadau Ariannu a Chodi Cyllid y DU ar ôl Brexit**. Mae'r papur yn galw am ddylunio system ariannu newydd sy'n hyrwyddo tegwch ar draws y DU, sy'n annog twf economaidd cytbwys ledled y wlad ac sy'n seiliedig ar gydsyniad pob un o wledydd y DU.

Yn **Diogelu Ymchwil ac Arloesedd ar ôl Ymadael â'r UE** rydym yn nodi bod yn rhaid gofalu nad yw Brexit yn effeithio'n negyddol ar lwyddiannau Cymru ym maes ymchwil ac arloesi.

Nod **Brexit a'n Moroedd** yw sicrhau dyfodol cynaliadwy i foroedd Cymru a'r diwydiant pysgota.

Cafodd y cynlluniau am gynllun ffermio ar ôl Brexit yng Nghymru eu cyhoeddi yn **Ffermio Cynaliadwy a'n Tir**. Nod y cynigion manwl yw diogelu'r tir a'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnig incwm sefydlog i ffermwyr ar yr un pryd drwy Gynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

12 Atodiad B – Aseiad Economaidd wedi'i Ddiweddarau o'r Effaith ar Gymru

Y PRIF NEGESEUON

- Eir ati yn y papur hwn i roi aseiad cryno o'r effaith economaidd y bydd ymadael â'r UE yn ei chael ar Gymru, ac i ymdrin yn benodol ag ymadael heb gytundeb ar 31 Hydref 2019.
- Oherwydd bod nifer o faterion na ellir bod yn sicr yn eu cylch, ac oherwydd bod yna faterion hefyd sy'n ddibynnol ar ei gilydd, ni ellir dibynnu ar un amcangyfrif manwl o faint yr effeithiau economaidd. Mae'n bwysig bod ystod eang o dystiolaeth yn cael ei hystyried er mwyn deall faint o effaith y mae ymadael heb gytundeb yn debygol o'i chael.
- Am resymau tebyg, nid yw'n ymarferol paratoi amcangyfrifon pendant o ba leoedd neu grwpiau poblogaeth a fydd yn wynebu'r effaith fwyaf.
- Ar ôl dweud hyn oll, mae'r dystiolaeth empirig gref sydd ar gael am gysylltiadau economaidd allweddol yn dangos y bydd ymadael â'r UE heb gytundeb na chyfnod pontio bron yn sir o arafu economi'r DU yn ddifrifol, gan arwain, yn y senario gwaethaf, at ddirwasgiad a fydd bron mor ddifrifol â'r un a gafwyd yn 2008-09.
- Pe bai'r economi'n arafu i'r graddau hynny, gallai arwain at leihau cyflogaeth yng Nghymru i raddau a fyddai'n gyfwerth â 40-50,000 o swyddi.
- Er y bydd rhai sectorau gweithgynhyrchu, ac amaethyddiaeth, yn dioddef yn benodol oherwydd yr ergydion cychwynnol a deimlir yn sgil rhwystrau newydd rhag masnachu, yr hyn a ddysgwyd oddi wrth ddirwasgiadau yn y gorffennol yw mai'r rheini sy'n debygol o wynebu'r effeithiau negyddol mwyaf fydd y diwydiant adeiladu, gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr, a'r agweddau hynny ar weithgynhyrchu sy'n fwyaf bregus wrth i alw ymhlith defnyddwyr, a galw am fuddsoddiad, newid.
- Yn yr un modd, y bobl sy'n fwyaf tebygol o wynebu effeithiau andwyol yw'r rheini sydd o dan yr anfantais fwyaf eisoes yn nhermau'r farchnad lafur (yn enwedig y bobl hynny sydd â llai o sgiliau, neu sydd ag anabled neu salwch).
- Y lleoedd sy'n wynebu'r risg fwyaf yw'r rheini lle mae llawer o bobl o'r fath, yn enwedig os nad yw'r economi ehangach mor gryf.
- Nid oes unrhyw reswm i newid aseuadau blaenorol o effeithiau tebygol Brexit yn y tymor hwy. Mae'n debyg y bydd yr economi yng Nghymru hyd at 10 y cant yn llai yn y tymor hir nag y byddai fel arall, gan ddibynnu ar y mathau o gysylltiadau masnachu newydd a gaiff eu cyflwyno dros amser ac ar ba mor gyflym y gellir addasu yn wyneb y cysylltiadau masnachu hynny.
- Bydd twf economaidd is yn cael effeithiau cysylltiedig ar y sylfaen drethu ac felly hefyd ar y gallu i gyllido gwasanaethau cyhoeddus.

CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Eir ati yn y papur hwn i ddiweddarau'r asesiad cryno o'r effaith y bydd ymadawiad y DU â'r UE yn ei chael ar Gymru.

Roedd y papur a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 4 Rhagfyr 2018¹ yn edrych ar ganlyniadau'r dadansoddiad economaidd a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU o ganlyniadau economaidd mwy hirdymor ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Cymharwyd casgliadau Llywodraeth y DU â chasgliadau ymchwilwyr creadadwy, annibynnol a gwelwyd eu bod, fwy neu lai, yn gyson â'i gilydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddiariad o'r dadansoddiad hwnnw ar 31 Mawrth 2019², gan fanteisio ar ddeunydd a gafodd ei gyhoeddi ar ôl y papur cyntaf a chan hoelio sylw ar yr effeithiau mwy byrdymor.

Mae'r papur hwn yn diweddarau mwy ar y sefyllfa, ac yn ystyried yn benodol y goblygiadau economaidd byrdymor a mwy hirdymor sy'n gysylltiedig â Brexit heb gytundeb, lle bydd y DU yn ymadael â'r UE ar 31 Hydref 2019 ac yna'n mynd ati'n syth i fasnachu gyda'r UE a phartneriaid masnachu'r bloc yn unol â thelerau Sefydliad Masnach y Byd (WTO).

Yn yr un modd â chydag asesiadau blaenorol, yr hyn a wnaed yma yw cyfuno'r dystiolaeth fwyaf creadadwy o amryfal ffynonellau. Mae llawer o'r dystiolaeth honno'n ymwneud â'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r dull gweithredu hwn yn un dilys gan fod gweithgarwch economaidd yng Nghymru wedi'i integreiddio'n agos ag economi ehangach y DU ac oherwydd bod perfformiad economaidd Cymru rhwng y tymor byr a'r tymor canolig, yn dilyn perfformiad y DU yn weddol agos. Nid yw'n bosibl dadansoddi, heb sôn am foddelu, perfformiad economaidd Cymru ar wahân i'r cyd-destun ehangach hwn.

DATBLYGIADAU ECONOMAIDD ALLWEDDOL AR ÔL Y REFFERENDWM YN 2016

Mae cytundeb cyffredinol rhwng dadansoddwyr annibynnol bod twf economaidd yn y DU ers y refferendwm wedi bod yn is nag y gellid bod wedi disgwyl fel arall. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi dweud:

"In our first post-referendum forecast in November 2016, we judged that the vote to leave the EU would result in a period of lower real GDP growth and this appears to have been borne out."³

Ar ôl gwneud gwaith dadansoddi, a oedd yn cynnwys cymariaethau â thuaddiadau yn y gorffennol a chyda'r sefyllfa mewn gwledydd eraill, gan gynnwys 28 gwladwriaeth yr UE, gwelwyd y gallai maint y twf a gollwyd hyd yma fod wedi cyrraedd dau y cant o gynnyrch domestig gros (GDP) blynyddol. I roi enghraifft, byddai hynny'n gyfwerth â thros £400 y flwyddyn i bob person yng Nghymru. Gan fod y swm a gollwyd wedi tyfu dros y tair blynedd ers y refferendwm, gallai cyfanswm y golled hyd yma fod yn agos at £1000 y person.

Mae'r gyfradd twf is ers y refferendwm yn adlewyrchu, yn rhannol, lai o fuddsoddiad na'r disgwyl gan fusnesau. Mae Banc Lloegr wedi dod i'r casgliad bod y buddsoddiad is hwn yn ganlyniad, i raddau helaeth, i'r ffaith bod mwy o ansicrwydd oherwydd Brexit.

Mae'r ffaith bod sterling wedi dibrisio ar ôl y refferendwm wedi cael effaith andwyol ar ddinasyddion y DU. Mae'r gyfradd gyfnewid yn adlewyrchu asesiad buddsoddwyr rhyngwladol o'r twf a ddisgwylir yn y DU yn y dyfodol. Os disgwylir i dwf fod yn is, mae hynny'n arwain at lai o alw am asedau'r DU ac yn sgil hynny at lai o alw am sterling, sy'n golygu bod arian cyfred yn dibrisio. Mae dibrisiant o'r fath yn arwain at brisiau uwch am fewnbynau a fewnforir ac am nwyddau ar gyfer defnyddwyr, gan arwain at incymau gwirioneddol sy'n is. Mae hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar draws yr economi gan fod defnyddwyr yn gwario llai nag y byddent wedi gwneud fel arall. Mae costau nwyddau hanfodol – megis bwyd a thanwydd – yn arbennig o sensitif i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid, ac mae cynnydd mewn costau o'r fath yn cael effaith anghymesur ar bobl sydd ar incymau isel.

1 <https://llyw.cymru/dadansoddiad-economaidd-o-gynigion-llywodraeth-y-du-ar-gyfer-ymadael-ar-ue?>

2 <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-dadansoddiad-diweddaraf-o-ganlyniadau-economaidd-ymadawiad-y-du-ar-undeb>

3 https://cdn.obr.uk/March-2019_EFO_Web-Accessible.pdf. Gweler para. 3.3 ar dudalen 2

Wrth gwrs, gall dibrisiant fod o fudd i fusnesau sy'n allforio (ac i'r rheini sy'n cystadlu â'i gilydd wrth fewnforio). Mae hyn yn rhan o'r broses lle mae'r economi yn addasu yn wyneb twf is mewn incymau domestig ond nid yw'n gwneud iawn mewn unrhyw fodd am yr effeithiau negyddol, felly nid yw'n "newyddion da" ynddo'i hun. Ac, wrth gwrs, nid yw dibrisiant arian cyfred yn gwneud dim, neu nemor ddim, i newid y ffactorau sylfaenol sy'n penderfynu ar ffyniant economaidd, sef gweithlu sydd â'r sgiliau priodol, sefydliadau a seilwaith da ac yn y blaen.

Dylid nodi hefyd nad yw dibrisiant sterling ar ôl y refferendwm wedi arwain at well perfformiad masnachu rhyngwladol. Mae'n bosibl bod hynny, yn rhannol, yn adlewyrchu natur gymhleth cadwyni cyflenwi, lle mae costau mewnbyn uwch yn cael effaith andwyol ar fusnesau allforio. Mae'n bosibl mai dim ond "bancio" elw uwch y mae cwmnïau yn ei wneud yn hytrach na gostwng prisiau. Mae'n debygol hefyd ei fod, yn rhannol, yn adlewyrchu'r ffaith nad ydynt yn barod i fuddsoddi oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit.

EFFEITHIAU BYRDYMROR YMADAEL HEB GYTUNDEB

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, bydd y difrod economaidd yn cael ei wneud mewn nifer o ffyrdd. Yn eu plith y bydd effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a chanlyniadau ar draws yr economi ("macroeconomaidd"):

- Rhwystro a tharfu ar allforio oherwydd tariffau a rhwystrau heblaw am dariffau. Bydd difrifoldeb yr effeithiau hyn yn amrywio ar draws sectorau.
- Posibilrwydd o rwystrau tebyg a fydd yn ein hatal rhag cael gafael ar fewnbynau a fewnforir.
- Costau uwch ar gyfer mewnbynau a fewnforir.
- Effeithiau ar gadwyni cyflenwi, a all fod yn rhai gwasgaredig iawn ac yn anodd eu priodoli.
- Prinder llafur oherwydd y bydd llai o bobl yn mudo.
- Galw is ar draws yr economi oherwydd y bydd defnyddwyr yn gwario llai a busnesau'n buddsoddi llai oherwydd bod eu disgwyliadau'n rhai negyddol.
- Cynhyrchiant is, ac yn sgil hynny enillion is, ar gyfer y ffactorau cynhyrchu a ddefnyddir i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau a fasnechir yn rhyngwladol ac sy'n rhai lle na fydd y DU yn gallu bod yn gystadleuol bellach wrth eu masnachu.
- Gwariant yn llai oherwydd yr effaith a gaiff dibrisiant arian cyfred ar wir gost nwyddau ar gyfer defnyddwyr ac ar safonau byw. Bydd hyn yn effeithio'n benodol ar bobl sydd ar incymau isel.
- Ar gyfer Cymru yn benodol, colli cyllid yr UE.

Er bod modd, mewn ambell achos, priodoli effeithiau penodol ar ddiwydiannau neu leoliadau unigol i Brexit, mae'n amhosibl darogan yn fanwl natur na maint yr effeithiau anuniongyrchol.

Mewn ambell achos, bydd yr effeithiau'n dibynnu ar ddewisiadau penodol a wneir gan y DU a chan lywodraethau eraill, er enghraifft, sut yr eir ati i sefydlu gwiriadau tollau a pha gamau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru'r sefyllfa.

Yn fwy cyffredinol, mae'r gwaith dadansoddi'n awgrymu bod y sianelau anuniongyrchol a macroeconomaidd yn debygol o arwain at effeithiau economaidd negyddol a fydd yn fwy na'r effeithiau uniongyrchol ar ddiwydiannau penodol.

Mae'r economi'n system ddynamig, sy'n newid drwy'r amser, lle mae nifer mawr o swyddi'n cael eu colli a'u creu, a nifer mawr o fusnesau'n cael eu hagor a'u cau. Er enghraifft, mae rhyw 2,000 o swyddi'n cael eu colli a'u creu yng Nghymru bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu, mewn sawl achos, mai dim ond un ffactor, ymhlith nifer a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau busnesau unigol, fydd effeithiau economaidd anuniongyrchol Brexit. Felly, yn aml, bydd yn amhosibl nodi ar lefel busnesau neu leoliadau unigol ganlyniadau negyddol a fydd, gyda'i gilydd, yn rhai sylweddol iawn.

O'r herwydd, er y gallai fod yn bosibl nodi diwydiannau penodol, ac yn sgil hynny, leoliadau penodol y gallai'r ergydion cychwynnol gael effaith anghymesur arnynt (er enghraifft, rhai lle mae nifer o sectorau allforio sy'n arbennig o agored i niwed ym maes gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth), dichon y gallai hynny roi argraff gamarweiniol am yr effeithiau cyffredinol.

MAINT YR EFFAITH YN Y TYMOR BYR

Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, mae yna ystod eang o senarios posibl. Fel y nodwyd uchod, bydd maint yr effeithiau, a'r math o effeithiau, yn dibynnu'n fawr ar yr amgylchiadau penodol a fydd yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod ar ôl iddi ymadael. O'r herwydd, nid yw'n briodol ceisio paratoi un rhagolwg rhifol ar gyfer Cymru.

Ymhlith rhai o'r materion allweddol a fydd yn codi os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb y bydd faint o amser y bydd pobl yn disgwyl iddo fynd heibio cyn y bydd rhagor o newidiadau i gysylltiadau masnachu'r DU â'r UE (a phartneriaid masnachu eraill) ⁴, y disgwyliadau a fydd ganddynt am y newidiadau hynny, a goblygiadau unrhyw ansicrwydd gwleidyddol. Byddai disgwyl i'r ffactorau hyn arwain at oblygiadau mawr, ond rhai na ellir eu rhagweld, i benderfyniadau buddsoddi a wneir gan fusnesau, ac i ymddygiad defnyddwyr. Mae dirwasgiad dwfn a hir yn un o'r canlyniadau tebygol, ac eir ati isod i hystyried mwy arno.

Bydd y math o effeithiau, a maint yr effeithiau hynny, yn dibynnu'n fawr hefyd ar unrhyw gamau macroeconomaidd a gymerir gan Lywodraeth y DU a Banc Lloegr i baratoi ar gyfer effeithiau negyddol, ac i'w lliniaru. Mae ansicrwydd ynglŷn â'r posibilïadau o ymateb gan ddefnyddio polisiâu ariannol safonol, ac mae'r cyfraddau banc yn hanesyddol isel. Mae cyfnod hir o gyfuno cyllidol yn golygu bod y diffyg cyhoeddus yn llai na dau y cant o GDP am y tro cyntaf ers 16 mlynedd ond fel y trafodir isod, bydd dirywiad economaidd yn cael effaith arwyddocaol ar gyllid cyhoeddus y DU.

Hefyd, mae Brexit yn digwydd ar adeg pan fo twf economaidd yn arafu ledled y byd a phan fo technoleg a rheoliadau'n newid. Bydd pa mor barod y bydd busnesau a seilwaith (megis porthladdoedd, systemau tollau tramor a chartref a gweithrediadau trafniadaeth) yn bwysig o ran penderfynu sut y bydd yr economi'n addasu yn wyneb rhwystrau newydd. Mae'r cyfuniad hwn o ffactorau'n golygu ei bod yn amhosibl darogan yn fanwl yn y meysydd hyn.

Cafodd GDP hwb dros dro yn ystod chwarter cyntaf 2019 ar ôl i bobl bentyrru nwyddau yn barod ar gyfer y diwrnod ymadael cychwynnol. Er hynny, ni ellir bod yn sicr i ba raddau y bydd hyn yn digwydd eto yn ystod y cyfnod yn arwain at y dyddiad ymadael ym mis Hydref.

Mae'r OBR a Banc Lloegr ill dau wedi ystyried yr effeithiau posibl a gaiff Brexit heb gytundeb ar y DU rhwng y tymor byr a'r tymor canolog.

Yn ei hadroddiad diweddaraf ar Risgiau Cyllidol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019⁵, cynhaliodd yr OBR brawf straen cyllidol a oedd yn seiliedig ar senario lle y byddai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Nid darlunio'r sefyllfa waethaf oedd bwriad y senario hwnnw (a oedd yn seiliedig ar un a ddyfeisiwyd gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF)), ac roedd yn cymryd, er enghraifft, mai ychydig yn unig o drafferthion y gwelid ar y ffiniau, y byddai cynllun cydnabod dros dro yn cael ei gyflwyno ar gyfer rai gwasanaethau ariannol, ac y byddai gostyngiad cymharol fach o 25,000 y flwyddyn yn nifer y bobl a fyddai'n mewnfudo.

Ar y sail hon, roedd yr OBR yn barnu y byddai dirwasgiad a fyddai'n para blwyddyn yn dechrau yn y DU ym mhedwerydd chwarter (misoedd Hydref-Rhagfyr) 2019. Byddai GDP gwirioneddol ychydig dros 2 y cant yn is (tua'r un peth ag yn ystod y dirwasgiad yn gynnar yn y 1900au a rhyw draean o'r hyn a welwyd yn ystod yr argyfwng ariannol. Byddai llai o gyflogaeth a mwy o ddiweithdra, gyda hwnnw ar ei uchaf, ar ychydig dros 5 y cant, yn 2021. Byddai'r twf mewn cynhyrchiant ac enillion yn wannach nag y byddai fel arall, ac o gyfuno hynny â'r effaith a gâi dibrisiant er y lefel brisiau, byddai hynny'n arwain at gyflogau gwirioneddol a fyddai 2.5 y cant yn is ddechrau 2024 nag y byddent fel arall. Byddai benthyca gan y llywodraeth ryw £30 biliwn yn uwch o 2020-21 ymlaen (llawer yn fwy nag unrhyw arbedion a wneir drwy roi'r gorau i gyfrannu at gyllideb yr UE).

Yn 2018, paratôdd Banc Lloegr nifer o senarios Brexit, un ohonynt yn hoelio sylw ar y canlyniadau pe bai'r sefyllfa ar ei gwaethaf. Cafodd y senarios hynny eu diweddarau mewn llythyr oddi wrth Lywodraethwr Banc Lloegr at Gadeirydd Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin ar 3 Medi 2019⁶. Yn y llythyr hwnnw, nododd

⁴ Mae'n werth nodi eu bod wedi cymryd saith mlynedd i'r UE a Chanada gytuno ar gytundeb masnachu.

⁵ <https://obr.uk/frr/fiscal-risks-report-july-2019/>

⁶ <https://www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/letter/2019/governor-letter-to-chair-of-tsc-re-updated-brex-it-scenarios.pdf?la=en&hash=2E567C985959FCF2D80A4F803A7D17392E2855DE>

y Llywodraethwr fod y mesurau a oedd wedi'u cyflwyno er mwyn paratoi ar gyfer Brexit wedi arwain at ostyngiad yn amcangyfrifon y Banc am y costau economaidd a fyddai'n gysylltiedig â'r senario mwyaf andwyol, sef ymadael heb gytundeb a heb gyfnod pontio. Dywedodd ei bod yn bosibl o dan y senario hwnnw y byddai gostyngiad cychwynnol mewn GDP o 5.5 y cant o'r pegwn uchaf i'r pegwn isaf, y gallai diweithdra godi i 7 y cant ac y byddai chwyddiant yn codi, gan gyrraedd pegwn uchaf o 5.25 y cant.

Nid yw'n fawr o syndod bod yr effeithiau hyn gryn dipyn yn fwy andwyol na'r rheini a amcangyfrifwyd gan yr OBR o dan ragdybiaethau llai andwyol am faint yr anawsterau a fyddai'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE.

Yn unol â'r pwyntiau a wnaed yn gynt, mae'r Llywodraethwr wedi rhoi rhybudd am yr ansicrwydd a'r "ffug gywirdeb" sydd ymhlwg mewn amcangyfrifon meintioledig o'r fath. Fodd bynnag, i roi enghraifft, gellid, mewn termau cyffredinol iawn, gymharu maint yr effaith a amcangyfrifwyd gan Fanc Lloegr o dan y senarios andwyol hyn ag effaith dirwasgiad 2008-09, pan welwyd gostyngiad mewn GDP o ryw 6 y cant o'r pegwn uchaf i'r isaf.

Ar gyfer y DU gyfan y mae'r amcangyfrifon hyn wrth gwrs. Mae'r dystiolaeth sy'n dangos bod economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n agos ag economi gweddill y DU yn awgrymu y gellid disgwyl fwy neu lai'r un faint o effaith yng Nghymru.

Dros y 10-20 mlynedd ddiwethaf, mae economi Cymru, at ei gilydd, wedi dilyn economi'r DU gyfan yn eithaf agos pan fesurir canlyniadau economaidd o gymharu â chyfanswm y boblogaeth. Yn benodol, roedd maint yr effaith a gafodd dirwasgiad mawr 2008-09 ar Gymru yn go debyg i faint yr effaith ar y DU gyfan. Er bod y gostyngiad mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) y pen ychydig yn fwy yng Nghymru nag yn y DU yn 2008, adferwyd y sefyllfa honno i raddau helaeth yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ac nid yw'n glir i ba raddau yr oedd y patrwm hwnnw'n adlewyrchu effeithiau gwirioneddol yn hytrach na rhai ystadegol. P'un bynnag, roedd maint y gwahaniaeth yn weddol fach o gymharu â'r gostyngiad absoliwt mewn GVA.

Mae mwy o allforion Cymru yn cael eu gwerthu ym marchnadoedd yr UE ac er y gellid disgwyl, oherwydd hynny, y byddai effeithiau dirwasgiad yn sgil Brexit rywfaint yn fwy yng Nghymru, nid oes modd cynnig asesiad seiliedig ar dystiolaeth o effeithiau gwahanol o'r fath oherwydd bod amryfal ffactorau eraill yn effeithio ar y canlyniadau (fel y nodir uchod).

Er hynny, ac eto a siarad yn gyffredinol, pe byddai'r senario gwaethaf yn cael cymaint o effaith ag a awgrymwyd gan Fanc Lloegr, mae'r hyn a brofwyd yn ystod y dirwasgiad diwethaf yn awgrymu y gallai hynny arwain at ostyngiad o ryw 3 y cant mewn cyflogaeth yng Nghymru, gyda rhywfaint o'r gostyngiad hwnnw i'w weld mewn diweithdra uwch a'r gweddill mewn lefelau uwch o anweithgarwch. Byddai hynny gyfystyr â rhyw 40-50,000 yn llai o bobl mewn gwaith, a byddai risg i ddiweithdra strwythurol gynyddu hefyd oherwydd mai dim ond yn araf y mae gweithwyr sy'n cael eu gwahanu oddi wrth y diwydiannau yr effeithir arnynt yn fawr yn symud i ddiwydiannau sy'n wynebu llai o effaith.

Byddai amryfal ganlyniadau andwyol eraill, wrth gwrs, gan gynnwys llai o swyddi'n cael eu creu, llai o fuddsoddiad gan fusnesau, a llai o fusnesau'n cael eu sefydlu. Byddai'r ddau ffactor olaf, yn eu tro, yn arwain at oblygiadau mwy hirdymor i dwf mewn cynhyrchiant yn y dyfodol.

EFFEITHIAU GOFODOL AC EFFEITHIAU O RAN DOSBARTHU YN Y TYMOR BYR

Wrth i rwystrau masnachu newydd gael eu cyflwyno'n ddisymwth ac wrth i weithwyr fod yn llai abl i symud o fewn y farchnad lafur, byddai hynny, wrth reswm, yn effeithio ar rai diwydiannau yn fwy nag eraill. Byddai effeithiau arbennig o gryf ar rai rhannau o'r sector gweithgynhyrchu (gan gynnwys prosesu bwyd), ar dwristiaeth ac ar amaethyddiaeth, yn enwedig yn y tymor byr.

Mewn dadansoddiad a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ar ran Llywodraeth Cymru, nodwyd sut y gallai rhwystrau newydd rhag masnachu effeithio ar ddiwydiannau gweithgynhyrchu penodol⁷. Dangosodd yr ymchwili fod risgiau penodol i ddiwydiannau megis y rhai awyrofod a modurrol ac i'r sector cemegau.

⁷ <https://llyw.cymru/cyfnod-pontior-ue-rhagolygon-economaidd-ar-gyfer-cwmnïau-mawr-chanolig-yng-nghymru?>

Er hynny, daeth yr awduron i'r casgliad fod yr amgylchiadau penodol sy'n wynebu busnesau unigol, a hefyd nodweddion y busnesau hynny, yn gallu bod yn bwysicach na'r sector y maent yn perthyn iddo. Ac, fel y nodwyd yn gynt, bydd effeithiau ar gadwyni cyflenwi, effeithiau ar fewnbynau a fewnforir, a'r canlyniadau macroeconomaidd, a allai fod yn rhai sylweddol, yn dylanwadu ar y canlyniadau hefyd.

Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn golygu nad oes modd bod yn fanwl-gywir wrth baratoi asesiadau seiliedig ar dystiolaeth o effeithiau gofodol.

Er hynny, mae effeithiau cychwynol arbennig o andwyol yn fwy tebygol mewn manau lle mae'r busnesau yr effeithir arnynt yn darparu cyfran fawr iawn o'r gyflogaeth yn lleol a lle nad yw'r economi leol mor gryf. Gallai hynny olygu bod gofid penodol am ardaloedd gwledig mwy anghysbell sy'n ddibynnol ar ffermio defaid, a'r rhannau hynny o Gyfoedd y De a Gogledd-ddwyrain Cymru sy'n ddibynnol iawn ar y rhannau mwyaf bregus o'r sector gweithgynhyrchu.

O ran asesu effeithiau lleol, mae angen cadw mewn cof hefyd fod cymudo a gwahanu perchenogaeth a chynhyrchu yn golygu y gall yr effeithiau fod yn rhai eithaf gwasgaredig.

Mae profiad a gafwyd yn ystod dirwasgiadau blaenorol, yn enwedig yr un mawr yn 2008-09, pan welwyd arian cyfred yn dibrisio'n sylweddol hefyd, yn awgrymu bod sawl gwrs gyffredinol i'w dysgu am yr effeithiau ehangach:

- Bydd llawer o'r effaith yn cael ei theimlo gan wasanaethau ar gyfer defnyddwyr, gan y diwydiant adeiladu, a chan yr agweddau hynny ar weithgynhyrchu yr effeithir arnynt gan lai o alw ymhlith defnyddwyr a chan lai o fuddsoddiad.
- O ran pobl, y rheini a fydd yn wynebu'r effaith fwyaf fydd y grwpiau hynny o bobl sydd o dan anfantais ac sydd â'r cysylltiad gwannaf â'r farchnad lafur – yn enwedig y bobl hynny sydd â llai o sgiliau a/neu sydd ag anabledd neu iechyd gwael, a'r rheini sydd ar incymau nominal sefydlog oherwydd bod incymau o'r fath yn dueddol o ddioddef os bydd chwyddiant yn codi.
- Felly, y lleoedd hynny sydd â'r niferoedd uchaf o bobl o'r fath fydd yn teimlo'r ergyd waethaf.
- Yn ystod cyfnodau cynnar unrhyw ddirwasgiad, yr hyn sy'n cael yr effaith fwyaf ar y farchnad lafur yw bod busnesau'n cael gwared ar lafur/weithwyr, ond yn fuan wedyn, yr hyn sy'n cael yr effaith fwyaf yw'r ffaith nad yw busnesau'n mynd ati i gyflogi cynifer o bobl.
- Yn rhannol, mae dirwasgiad yn cyflymu newidiadau strwythurol a fyddai'n digwydd beth bynnag, er y byddent yn digwydd yn arafach.
- Felly, mae cefnogi amodau a fydd yn arwain at greu swyddi ac at lwyddiant busnesau, gan fynd ati ar yr un pryd i gefnogi pobl sy'n methu dod o hyd i waith (yn enwedig drwy addysg a hyfforddiant), yn debygol o fod yn fwy effeithiol na cheisio cadw diwydiannau a swyddi sy'n bodoli eisoes.
- Er hynny, mae tystiolaeth a welwyd ledled y wlad yn awgrymu bod rhoi cymorth i gwmnïau hyrwyddo gweithio amser byr, yn hytrach na diswyddo pobl, yn gallu arwain at fanteision parhaol, ar yr amod bod y sylw'n cael ei hoelio ar fusnesau sy'n rhai sylfaenol gryf.

Mae'n debyg y bydd yr holl ansicrwydd am gysylltiadau masnachu yn y dyfodol yn parhau yn syth ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ac mae hynny'n cryfhau'r achos dros ymyriadau gan y llywodraeth, a'r rheini'n ymyriadau sydd â sail resymegol gadarn, ar draws ystod eang o senarios posibl. Bydd ymyriadau o'r fath, yn ôl pob tebyg, yn cynnwys (fel y nodwyd eisoes) gweithredu effeithiol ar addysg a sgiliau (trosglwyddadwy) ac ar seilwaith economaidd sy'n hwyluso masnach a sefyllfa lle mae'r cyflenwad llafur yn cyfateb i'r galw. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod rhagor o dai addas ar gael.

EFFEITHIAU HIRDY MOR

Mae'r dadansoddiad mwy hirdymor yn rhagdybio mai effeithiau dros dro fydd unrhyw effeithiau byrdymor yn sgil Brexit anhrefnus, hyd yn oed os byddant yn rhai difrifol, ac na fyddant, felly, yn dylanwadu ar y canlyniadau ar ôl 10-15 mlynedd. Mae'n bosibl bod hyn yn optimistaidd yn y senario gwaethaf. Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr o'r farn mai'r rheswm pam mae twf o ran cynhyrchiant yn parhau'n araf iawn yw oherwydd bod y dirwasgiad diwethaf wedi "gadael craith" o ran yr effaith ar fuddsoddi gan fusnesau ac ar greu cyfalaf dynol.

Y dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu yn y dadansoddiad a adolygir yma yw asesu pa wahaniaeth y byddai ymadael â'r UE a masnachu yn unol â thelerau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn debygol o'i wneud i ganlyniadau economaidd o gymharu â'r trefniadau masnachu presennol, yn hytrach na darogan pa ganlyniadau a fydd yn wynebu'r DU mewn gwirionedd. Byddai'n rhaid i ragolwg o'r fath ystyried ystod eang o ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar yr economi dros y tymor hir⁸.

Hyd yn oed ar y sail hon, mae mesur effeithiau economaidd ymadael â'r UE yn gryn her.

Mae consensws cryf ymhlith economegwyr am yr egwyddorion allweddol, yn benodol:

- mae rhwystrau rhag masnachu yn arwain at gostau economaidd – mae ffin sydd, i bob pwrpas, yn un lle na cheir unrhyw drafferthion wedi caniatáu i gwmnïau yn y DU arbenigo mewn gweithgareddau lle mae ganddynt fantais gymharol, ac sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf. Mae aelodaeth o'r UE wedi ysgogi buddsoddiad uniongyrchol o dramor hefyd wrth i gwmnïau fuddsoddi yn y DU er mwyn cael troedle yn y farchnad sengl, ac mae rhyddid i lafur symud wedi caniatáu i gyflogwyr yn y DU gyflogi talent o bob cwr o'r UE;
- mae pellter ei hun yn rhwystr, ac fel rheol, mae masnach yn fwy dwys gyda phartneriaid sy'n agos yn ddaeryddol ac sy'n debyg hefyd o ran lle y maent arni o ran eu datblygiad economaidd;
- mae rhwystrau nad ydynt yn dariffau (gan gynnwys rheoliadau, gwiriadau a hyd yn oed tagfeydd) o leiaf cyn bwysiced â thariffau mewn llawer achos, ac yn bwysicach yn aml.

Er hynny, mae'n anodd iawn asesu i ba raddau y bydd rhwystrau ychwanegol yn codi o dan drefniadau masnachu newydd, ac mae'n anoddach fyth mesur maint eu heffaith, yn benodol oherwydd nad oes unrhyw gynsail lle y gwelwyd economi o bwys yn ymadael â bloc masnachu mawr.

Mae dadansoddwyr wedi defnyddio amryfal dechnegau i asesu ac i fesur maint yr effeithiau hynny. Yn eu plith y mae mathau gwahanol o fodelu ffurfiol a chyfuno tystiolaeth o ystod o astudiaethau empirig.

Erbyn hyn, mae amrywiaeth eang o astudiaethau wedi cael eu cyhoeddi gan academyddion, gan gyrff llywodraethol a rhynglywodraethol, a chan wasanaethau ymgynghori a sefydliadau ariannol.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi cynnal "prawf straen" yn ddiweddar ar effaith masnachu gyda'r UE ar delerau'r WTO ac mae hefyd wedi manteisio ar ddadansoddiadau sy'n mabwysiadu'r un dull gweithredu ag a ddefnyddir wrth gynnal dadansoddiadau prif ffrwd.⁹ Ceir amcangyfrif yn Nhabl 1 o'r effeithiau hirdymor ar GDP blynyddol y DU.

Y cyfraniad y bydd masnachu gyda'r UE yn unol â thelerau'r WTO yn ei wneud i'r effeithiau hirdymor ar GDP blynyddol y DU (pwyntiau canran)

	IMF	Llywodraeth y DU		NIESR	LSE	
		Polisi mudo heb ei newid	Dim mudo net o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd		Cynhyrchiant sefydlog	Cynhyrchiant dynamig
Mudo	-1.2	-0.2	-1.8	n/a	-1.4	-1.8
Cynhyrchiant	-4.7	-7.5	-7.5	n/a	-3.3	-8.1
Cyfanswm	-5.9	-7.7	-9.3	-5.5	-4.7	-9.9

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

⁸ Mae hanes blaenorol rhagolygon o'r fath, a elwir weithiau'n "rhagolygon diamad" yn wael, gan adlewyrchu ansicrwydd anochel am y dyfodol. Mae gwneud asesiad ar sail tystiolaeth o ba wahaniaeth y gallai newid penodol ei wneud, rhywbeth a elwir weithiau'n "rhagolwg amodol", yn parhau'n her ond mae, yn y bôn, yn ddewis mwy ymarferol.

⁹ <https://obr.uk/frr/fiscal-risks-report-july-2019/>

O gofio cyfyngiadau anochel y math hwn o ddadansoddiad, mae'n bwysig iawn cydnabod y dylid edrych ar yr holl agweddau ar amcangyfrifon meintioledig o'r effaith, a'u hystyried yn amcangyfrifon sy'n dynodi maint posibl yr effaith, yn hytrach na chymryd eu bod yn amcangyfrifon manwl-gywir.

Nid yw'r amcangyfrifon bras hyn wedi newid o'u cymharu â'r rheini a gyflwynwyd yn y gorffennol – gallai GDP blynyddol fod rhyw 10 y cant yn is nag y byddai fel arall yn sgil penderfyniad i adael yr UE ac i fasnachu yn unol â thelerau'r WTO.

Eto, a siarad yn gyffredinol iawn, a dim ond er mwyn rhoi enghraifft, mae hyn, yn nhermau heddiw, yn rhyw £2,000 y flwyddyn ar gyfer pob person yng Nghymru.

Wrth gwrs, os bydd twf yn is, bydd llai o refeniw trethi hefyd. Er enghraifft, ar sail y senario a fabwysiadwyd gan yr OBR ar gyfer ei phrawf straen, byddai cyfran poblogaeth Cymru o'r gostyngiad a ddisgwylir bob blwyddyn mewn refeniw trethi o 2020-21 ymlaen yn rhyw £1.5 biliwn, ac mae'n amlwg y byddai hynny'n arwain at ganlyniadau o ran cyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gwaith dadansoddi a wnaed gan Lywodraeth yn dangos mai bach iawn fyddai manteision economaidd y cytundebau masnach rydd (FTAs) newydd a fyddai'n bosibl o dan y Papur Gwyn neu mewn sefyllfa "dim cytundeb" o'u cymharu â'r colledion a fyddai'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE¹⁰. Unwaith eto, nid yw hyn yn syndod o gofio'r egwyddorion economaidd a nodir uchod, gan fod llawer o FTAs yn rhai gyda gwledydd nad ydynt yn agos yn i'r DU yn ddaearyddol. Hefyd, mae'r dadansoddiad yn dangos mai bach iawn iawn yw'r manteision posibl a fyddai'n gysylltiedig â rhoi'r gallu i'r DU bennu rheoliadau yn annibynnol ar yr UE (+0.1% o GDP).

Cafwyd canlyniadau gwahanol mewn astudiaethau annibynnol blaenorol sydd wedi edrych ar effeithiau mwy hirdymor Brexit ar wledydd a rhanbarthau unigol y DU, gan ddibynnu'n rhannol a oedd asesiadau'n dangos bod rhwystrau ychwanegol nad ydynt yn dariffau yn effeithio'n fwy difrifol ar nwyddau neu ar wasanaethau. Er hynny, ar y cyfan, mae'r integreiddio agos rhwng economi Cymru a gweddill y DU, ynghyd â phrofiad blaenorol, yn awgrymu bod maint yr effeithiau negyddol yn debygol o fod yr un peth yn y tymor hwy.

Er hynny, mae angen hefyd, wrth asesu'r canlyniadau tebygol, ystyried ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar gyfraddau twf cymharol. Yn benodol, yn ôl yr amcanestyniadau, disgwylir i'r boblogaeth 16-64 oed ostwng yng Nghymru dros y degawdau nesaf, ond mae disgwyl iddi gynyddu ar draws y DU gyfan. Byddai disgwyl i hynny arwain at dwf is yn allbwn economaidd Cymru ac yn sylfaen drethu Cymru, a fyddai'n ychwanegol at effaith Brexit.

¹⁰ Mae rhywfaint o waith blaenorol a oedd yn edrych ar effeithiau llesol cytundebau masnach newydd ar yr UE gyfan wedi dangos y gallai'r effeithiau cadarnhaol fod yn fwy. Er hynny, ni ellir cymharu'r canlyniadau, a hynny oherwydd y bwriedid iddynt ddangos y budd posibl mwyaf, gan gymryd y byddai'r holl rwystrau heblaw am dariffau'n cael eu dileu (sydd, yn ôl pob tebyg, yn afrealistig). Yn ogystal, mae marchnad yr UE yn fwy o lawer na marchnad y DU, felly mae mwy o gyfle hefyd i fanteisio ar rai o'r buddion sy'n deillio o fasnachu.

